

TRAWSNEWID
CAS-GWENT
CYNLLUN CREU
LLEOEDD
HAF 2023



Paratowyd y ddogfen hon gan:



Chris Jones

Roberts Limbrick Architects

15 Nevill Street,
Y Fenni,
Sir Fynwy,
NP7 5AA

The Estates Office
25-26 Gold Tops
Casnewydd,
NP20 4PG

Mewn cydweithrediad â

Highgate *Transportation*

... ar ran:



monmouthshire
sir fynwy



Trawsnewid Trefi
Transforming Towns



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawlfraint

Ni ellir copïo nac atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon yn llwyr nac yn rhannol. Pery'r hawlfraint gyda'r cleient.

Atgynhyrchir pob cynllun o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolydd Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

Cynllun Creu Lleoedd

Dyddiad: 19-05-2023

Gwaith: 10406

Fersiwn: 09 (Cymraeg)

CRYNODEB

Mae Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Cas-gwent wedi adnabod yr angen am Gynllun Creu Lleoedd i Gas-gwent sy'n cynnwys y fframwaith strategol i arwain newidiadau yn y dref yn y dyfodol. "Cynllun Trawsnewid Cas-gwent" yw'r strategaeth a'r cynllun creu lleoedd ar gyfer y dref.

Mae sylfaen y Cynllun hwn yn y Cynllun Lle y bu Cyngor Tref Cas-gwent yn ei ddatblygu yn ystod y pandemig Covid-19, gyda'r Cyngor Tref yn ymuno â Chyngor Sir Fynwy yn 2022 i baratoi'r fframwaith adfywio strategol hwn. Mae'r ddau Gyngor wedi cydweithio i greu un Cynllun Creu Lleoedd a fydd yn cyfuno ac yn datblygu ymhellach y themâu a'r atebion sy'n dod i'r amlwg o'r Cynllun Lle, gan gefnogi a gweithio'n unol â pholisïau, cynlluniau a chyfleoedd cyllido Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy.

Diben y ddogfen hon yw arwain gwariant adfywio yn y dref yn y dyfodol a sicrhau bod Cas-gwent yn y dyfodol yn dref ddeniadol a bywiog sydd mewn sefyllfa dda i wasanaethu ei thrigolion ac ymwelwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun yn amlygu'r heriau sy'n wynebu'r dref a gafodd eu canfod trwy ddod ag astudiaethau a sgysiau eraill at ei gilydd yn ogystal â sawl cyfle ymgynghori a gynigiwyd yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2022. Mae arolygon cymunedol wedi nodi meysydd i'w blaenoriaethu gyda thraffig a thagfeydd, iechyd Stryd Fawr Cas-gwent a'r angen am amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol yn flaenllaw ym meddyliau pobl, heb anwybyddu meysydd eraill i ganolbwyntio arnynt.

Mae gweledigaeth y Cynllun ar gyfer y pymtheng mlynedd nesaf felly'n canolbwyntio

ar fod Cas-gwent **"yn lle gwych i bobl leol, busnesau ac ymwelwyr. Mae canol y dref yn lle hygyrch a thrawiadol i fusnesau lleol, y celfyddydau, diwylliant a llecynnau cyhoeddus, gyda thrafnidiaeth a symudiad yn cael ei wella trwy ddarpariaeth integredig ac aml-ddull. Mae cymdogaethau'r dref wedi eu cysylltu'n dda, gyda'r amrywiaeth iawn o wasanaethau i gefnogi llesiant trigolion trwy ganolbwyntio ar atebion gwyrdd."**

Caiff y Weledigaeth ei chefnogi gan bedair thema allweddol, sef **i) Symud o Gwmpas y Dref ii) Cymuned a Phobl iii) Llecynnau Naturiol, Agored, Amgylchedd a Llesiant a iv) Cyrchfan a Phrofiad.**

Wrth wrando ar y gymuned leol, deall sut y gall syniadau ymdrin â meysydd polisi sydd â blaenoriaeth ac adnabod ffynonellau o gyllid ac adnoddau, mae'r Cynllun wedi dewis ei brosiectau blaenoriaeth, heb ddiystyru camau gweithredu eraill ar gyfer y dref, sydd â blaenoriaeth is.

Mae blaenoriaeth gyntaf y Cynllun yn canolbwyntio ar Stryd Fawr y dref trwy amrywiaeth o weithgarwch sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag eiddo gwag, cynnig grantiau gwella adeiladau a chanfod ffyrdd o ysgogi presenoldeb trwy leoedd gwaith a phrosiectau dros dro. Caiff swyddogaeth y Drill Hall yng nghanol y dref yn ehangach ei chydabod hefyd fel canolfan gelf, dsiwylliannol a chymunedol a all ategu apêl y Stryd Fawr a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.

Mae'n hanfodol creu gwell amgylchedd i bawb, sy'n cefnogi'r economi leol a llesiant ehangach Cas-gwent. Mae'r Cynllun felly'n blaenoriaethu buddsoddiad yn yr orsaf

drenau gyda chyfnewidfa fysiau a rheilffordd sy'n gysylltiedig â safleoedd bws canol y dref, cynllun trafndiaeth seiliedig ar alw sy'n gweithredu i gyda'r nos, yn ogystal ag yn ystod y dydd, a chysylltiadau teithio llesol ehangach ledled y dref.

Mae rôl seilwaith gwyrdd hefyd yn llesiant cymunedau o ddydd i ddydd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth pwysig, fel yn ardal y Dell o ganol y dref ac o fewn Bulwark a Thornwell.

Amlinellir prosiectau atodol eraill y gall y Cynllun eu galluogi a'u cefnogi pan fo angen. Nid dogfen wedi ei selio yw'r Cynllun ond un

sy'n gallu ymateb i gyfleoedd eraill fel maent yn digwydd.

Mae'r Cynllun yn darparu'r llwyfan i roi Cas-gwent yn ôl ar y map ar lefel strategol a lleol. Yn strategol, mae'n gweithredu fel canolbwynt i gael sgysiau gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol eraill, gan ddarparu achos busnes dros fuddsoddiad a chyllid. Ar lefel leol, mae'n gweithredu fel mecanwaith gydgysylltiedig ar gyfer cyfarwyddo gweithredu ymysg yr holl bartneriaid a thir cyffredin ar gyfer gweithredu.



Ffynhonnell y llun: www.visitmonmouthshire.com/explore/chepstow

EICH TAITH
DRWY'R
DDOGFEN
HON

PENNOD 01
Y CYNLLUN
CREU LLEOEDD




PENNOD 02
CAS-GWENT
YN EI GYD-
DESTUN

PENNOD 03
HERIAU A
CHYFLEOEDD

PENNOD 05
CYNLLUN
GWEITHREDU
A RHAGLEN




PENNOD 04
GWELEDIGAETH,
THEMÂU A
PHROSIECTAU



Pennod 01 Y Cynllun Creu Lleoedd

1



DIBEN

Penderfynodd Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Cas-gwent ar yr angen am Gynllun Creu Lleoedd i Gas-gwent i roi'r fframwaith strategol a fydd yn arwain newidiadau yn y dref yn y dyfodol. "Cynllun Trawsnewid Cas-gwent" yw'r strategaeth a'r cynllun creu lleoedd ar gyfer y dref.

Mae Cyngor Tref Cas-gwent wedi bod yn gweithio i gynhyrchu Cynllun Creu Lleoedd, gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dref a ddatblygwyd trwy ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi adnabod cyfle i baratoi fframwaith adfywio strategol i Gas-gwent a fyddai'n arwain gwariant adfywio yn y dref yn y dyfodol a sicrhau bod Cas-gwent yn dref ddeniadol a bywiog mewn sefyllfa dda i wasanaethu ei thrigolion a'i hymwelwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd disgwyl i'r cynllun hefyd fynd i'r afael â rhai o'r heriau presennol yn ogystal ag edrych ymlaen at y trawsnewid sydd ei angen i sicrhau bod y dref yn gallu elwa ar gyfleoedd posibl a all godi o gynnydd arfaethedig mewn poblogaeth yn y dyfodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol.

Mae'r ddau Gyngor wedi manteisio ar gyfle i ddod at ei gilydd i gynhyrchu Cynllun Creu Lleoedd sengl a fydd yn cyfuno a datblygu ymhellach y themâu a'r atebion sy'n dod i'r amlwg o waith y Cynllun Lle yn unol â pholisïau, cynlluniau a chyfleoedd ariannol perthnasol Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy.


Nod y Cynllun

Paratoi fframwaith adfywio strategol i Gas-gwent a fyddai'n arwain gwariant adfywio yn y dref yn y dyfodol a sicrhau bod Cas-gwent y dyfodol yn dref ddeniadol a bywiog a fydd mewn sefyllfa dda i wasanaethu ei thrigolion ac ymwelwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.


Amcanion y Cynllun



Defnyddio'r gyd-weledigaeth a'r themâu sy'n dod i'r amlwg fel sail ar gyfer datblygu cynllun gweithredu seiliedig ar le



Adolygu, deall a defnyddio'r sgysiau o waith y Cynllun Lle fel bod parhad proses, meddylfryd a gweithredu



BETH YW CYNLLUN CREU LLEOEDD?

Mae Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru yn disgrifio creu lleoedd fel:

“Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae’n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy’n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangach.”

Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a’r berthynas rhwng safle datblygiad a’i amgylchedd ehangach.

Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy’n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy’n cael eu creu o fewn lle ehangach.

Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i’w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl.

Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy’n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffisiolegol ac sy’n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.

Mae Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020 yn trafod yr angen am ddull holistig sy’n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnydd o ddarnau penodol o dir neu bob datblygiad ar ei ben ei hun.

Cafodd y cysyniad o greu lleoedd ei ddatblygu mewn ymateb i unfurfiaeth o fewn yr amgylchedd adeiledig lle mae datblygiad newydd yn brin o hunaniaeth a chymeriad penodol, teimlad o gymuned na chydberchnogaeth. Mae creu lleoedd wedi tyfu mewn pwysigrwydd wrth i’r cysylltiadau ag iechyd a llesiant gael eu harchwilio a’u deall yn fwy trylwyr.

Sut mae Cynllun o Gymorth i Greu Lleoedd da?

Er nad Cynllun Creu Lleoedd yw’r unig ateb i reoli newid a rhoi cyfeiriad i dref fel Cas-gwent, mae’n bwysig fframio dyheadau hirdymor a hefyd meithrin perthynas rhwng y lle, y bobl, a’r gweithgareddau. Y nod yma yw gwneud y cyfan yn rhywbeth mwy na chyfanswm ei rannau.

Mae strategaeth a chynllun hirdymor hefyd yn sicrhau bod materion ymarferol wedi cael eu hystyried a bod cynllun y lle yn gallu cynnwys yr amrediad tebygol o’r dibenion gofynnol yn y pen draw. Mae Cynllun yn ymwneud hefyd â chreu lle ac nid dim ond am ddyluniad gan ei fod yn ymwneud â chreu a datblygu profiad mae pobl yn teimlo’n gysurus ynddo a’u bod yn cael eu croesawu iddo.

Dylid datblygu gweithgareddau creu lleoedd hirdymor gan ymgynghori â’r gymuned gan mai hwy yw’r arbenigwyr lleol a all gynnig barn a dealltwriaeth werthfawr o hanes, diwylliant, a swyddogaeth yr ardal, neu unrhyw agwedd sy’n golygu rhywbeth i’r bobl.

Ysgogwyr allweddol

Mae’r ysgogwyr allweddol canlynol wedi cael eu hamlygu fel rhan o’r broses Creu Lleoedd o dan arweiniad y gymuned. Y rhain yw:

Grymuso Cymunedau a Chynnal Gwasanaethau

Diogelu, gwella ac amrywio asedau cymdeithasol a diwylliannol y dref yn ogystal â’n cyfleusterau a gwasanaethau gwerthfawr i ddiwallu anghenion holl aelodau’r gymuned.

Llecynnau Agored a’r Amgylchedd Naturiol

Diogelu a lle bo’n bosibl, gwella’r amgylchedd naturiol o gwmpas ac o fewn y dref a sicrhau bod gan bobl o bob oed a lefel symudedd fynediad at lecynnau gwyrdd ac agored o ansawdd uchel.

Siopa, Gweithio ac Ymweld

Sicrhau bod canol y dref yn parhau i fod yn ganolfan hygyrch a deniadol o’r dref a’r ardal ehangach a chynnal a thyfu safle Cas-gwent fel lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld.

Symud o Gwmpas


Ymdrin â materion sy’n gysylltiedig â phriffyrdd ac effaith dwysedd uchel o draffig ac ansawdd aer gwael, a chefnogi creu system drafndiaeth leol sy’n addas ar gyfer pob taith sydd ar bawb eu hangen i fynd o gwmpas y dref a’r tu hwnt iddi.

Treftadaeth a Lle


Gwarchod asedau treftadaeth ac amgylchedd adeiledig y dref a dathlu ein diwylliant a fydd yn helpu creu teimlad o berthyn a balchder ymysg y boblogaeth leol yn ogystal â denu ymwelwyr i’r dref, yn ogystal â siopau a chyflogwyr.


Cartrefi a Datblygu Cynaliadwy yn y Dyfodol

Sicrhau bod cymuned Cas-gwent yn chwarae rhan weithgar yn nhwf y dref yn y dyfodol, gan ystyried anghenion cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol am gartrefi o ansawdd uchel, sy’n ymatebol i newid hinsawdd a fforddiadwy, o fewn Cas-gwent ac yn yr ardaloedd o’i gwmpas.




PROSES Y CYNLLUN





Pennod 02

Cas-gwent yn ei gyd-destun



CYD-DESTUN Y LLEOLIAD

Mae tref Cas-gwent wedi ei lleoli yn Sir Fynwy sy'n ffinio â Swydd Gaerloyw yn y dwyrain.

Mae mewn lleoliad strategol ar Afon Gwy ac yn agos i Afon Hafren sydd tua 2 filltir i'r de-ddwyrain.


Mae Cas-gwent tua 30 milltir i'r dwyrain o Gaerdydd a 17 milltir i'r gogledd-orllewin o Fryste, sy'n ddwy ganolfan fawr o safbwynt cyflogaeth a theithio o fewn y rhanbarth.

Mae'r boblogaeth tua 14,000. Casnewydd yw'r agosaf o ddinasoedd mawr Cymru at Gas-gwent, ac mae hi tua 19 milltir i'r gorllewin gyda mynediad hawdd iddi ar hyd y coridor M48/M4 sy'n hwyluso teithio o fewn y rhanbarth.

Mae aneddiadau sylweddol eraill yn yr ardal hon yn cynnwys Cil-y-coed sydd tua 3 milltir i'r de-orllewin.

Mae gan Gas-gwent gysylltiadau trafndiaeth gyda gwasanaethau trên uniongyrchol i Gasnewydd a Chaerloyw sy'n rhoi mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol.

Mae'r M48 yn arwain yn uniongyrchol i Gasnewydd ac yn croesi Afon Hafren gan arwain drwodd i Aust cyn ailymuno â'r M4 a'r M5 yn Almondsbury. Gellir cyrraedd Pont Hafren yr M4 hefyd yn uniongyrchol o Gasnewydd ar hyd ar M48. Mae'r A48 yn cysylltu â Chaerloyw a Fforest y Ddena wrth symud i fyny Dyffryn Gwy.



Pont Hafren yr M48




*Castell Cas-gwent
ar Afon Gwy*

CHEPSTOW TIMELINE OF HISTORY AND DEVELOPMENT



Cas-gwent
Hanesyddol



Source: MonHeritage Archives

Mae'r enw Cymraeg Cas-gwent yn cyfeirio at "gastell Gwent". Daw'r enw Saesneg Chepstow o'r Hen Saesneg ceap/chepe stowe, sy'n golygu lle marchnad neu ganolfan fasnach. Mae'r gair "stow" fel arfer yn dynodi lle o arwyddocâd arbennig, ac mae'r gwraidd chep yr un fath ag mewn enwau lleoedd eraill fel Chipping Sodbury a Cheapside. Cofnodwyd yr enw gyntaf yn 1307, ond gallai fod wedi cael ei ddefnyddio gan y Saeson am ganrifoedd.

LLINELL AMSER HANES A DATBLYGIAD CAS-GWENT

Mae'r safle hynaf yng Nghas-gwent y gwyddom fod pobl wedi byw ynddo yn Thornwell – sy'n edrych dros aberoedd Gwy a Hafren gerllaw cyffordd traffordd fodern yn M48, lle datgelodd ymchwiliadau archaeolegol ar gyfer datblygiad tai diweddar olion o bobl yn byw yno'n ddi-dor o'r cyfnod Mesolithig o tua 5000 CC hyd at ddiwedd y cyfnod Rhufeinig, tua 400 OC. Mae hefyd wersylloedd caerog o'r Oes Haearn yn yr ardal – sy'n dyddio'n ôl o adeg y Silwriaid, yn Bulwark, 1 filltir (1.6 km) i'r de o ganol y dref, ac yn Piercefield a Lancut, tua 1.5 milltir (2.4 km) i'r gogledd. Yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid, roedd pont neu sarn ar draws afon Gwy, tua 0.6 milltir (0.97 km) i fyny'r afon o bont ddiweddarach y dref.

Ar ôl y goncwest Normanaidd yn Lloegr, roedd Cas-gwent yn lleoliad allweddol. Dyma lle'r oedd y bont isaf ar Afon Gwy, gan roi canolfan i yrru rheolaeth y Normaniaid ymlaen i dde Cymru, a rheoli mynediad ar hyd yr afon i Henffordd a'r Mers.

Sefydlwyd Castell Cas-gwent gan William Fitzosbern, Iarll 1af Henffordd, yn 1067, ac mae ei Dŵr Mawr, a gaiff ei grybwyll yn aml fel y gaer garreg hynaf ym Mhrydain, yn dyddio o'r amser hwnnw neu'n fuan wedyn.

Roedd masnach y tref yn ymwneud yn bennaf â choed a rhisgl o Ddyffryn Gwy, a gyda Bryste. O'r oesoedd canol, Cas-gwent oedd y porthladd mwyaf yng Nghymru – gyda'i llongau'n hwylio cyn belled â Gwlad yr Ia a Twrci, yn ogystal ag i Ffrainc a Portiwgal, ac roedd y dref yn enwog am fewnforio gwin.

Cafodd Cas-gwent ei siartr gyntaf yn 1524, a daeth yn rhan o Sir Fynwy pan gafodd y sir ei ffurfio.

Fe wnaeth y castell a'r dref newid dwylo sawl gwaith yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr. Parhaodd

y porthladd i ffynnu; yn ystod y cyfnod 1790 i 1795, mae cofnodion yn dangos mwy o dunelli o nwyddau'n cael eu trin nag yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd gyda'i gilydd.

Daeth y dref yn ganolfan bwysig i dwristiaeth o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pan ddaeth y

"Wye Tour" yn boblogaidd. Byddai ymwelwyr yn rheolaidd yn cymryd cychod o Ross-on-Wye a Threfynwy i lawr yr afon, gan ymweld, darlunio a phaentio'r golygfeydd hardd a thrawiadol o'r ardal, a oedd yn cynnwys Abaty Tyndyrn, Tŷ Piercefield, ac adfeilion Castell Cas-gwent.

Yn y 19eg ganrif, datblygodd diwydiant adeiladau llongau, ac roedd y dref yn adnabyddus hefyd am gynhyrchu clociau, clychau a meini melin. Dirywiodd masnach y porthladd ar ôl dechrau'r 19eg ganrif, wrth i Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe ddod yn fwy addas ar gyfer trin allforion mawr glo a dur o gymoedd Sir Forgannwg a Sir Fynwy. Fodd bynnag, bu adfywiad byr mewn adeiladu llongau pan sefydlwyd Iard Longau Rhif 1 yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac am gyfnod byr wedyn, pan gafodd y llongau parod (prefabricated) cyntaf, gan gynnwys War Glory, eu hadeiladu yma. Arweiniodd y mewnlifiad o lafur ar gyfer yr iardiau llongau, o 1917 ymlaen, at gychwyn y datblygiad tai "gardd-faestref" yn Hardwick (sydd bellach yn cael ei adnabod yn lleol fel "Garden City") a Bulwark.

Datblygodd y dref yn gyflym ar ôl agor Pont Hafren yn 1966 – a gymerodd le'r fferi ceir rhwng Beachley ac Aust a chaniatáu teithio haws rhwng Cas-gwent a chanolfannau mwy gan gynnwys Bryste a Chaerdydd. Yn 2016, nodwyd 200 mlwyddiant Pont Gwy a 50 mlwyddiant Pont Hafren â dathliadau yn y dref.



CENEDLAETHOL (PARHAD)

Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 1 Rheoli Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol a Rhan 2 Newid yn yr Hinsawdd

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu ni fynd i'r afael â'r her hon trwy gyflwyno rheoli cynaliadwy o adnoddau naturiol fel ffordd newydd o sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio adnoddau naturiol na'n heffeithiau arnynt yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu oddi wrth brofiadau ein partneriaid rhyngwladol ac yn defnyddio'r arferion gorau rhyngwladol trwy, er enghraifft, weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar ymdriniaeth ecosystem o Amrywiaeth Biolegol, er mwyn helpu Cymru i arwain y ffordd ar ddatblygu cynaliadwy. Ein nod yw rheoli'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb esgeuluso anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf – Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth. I gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymrweiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn polisiau, rhaglenni a phrosiectau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent yn cyflwyno canllawiau mwy manwl ar gyfer gweithredu ledled Gwent. Bydd cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 yn helpu cyfrannu hynny ag sy'n bosibl at y nodau llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

- Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

CRYNODEB POLISI – RHANBARTHOL

- Adolygiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio 2013-2018 <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio-adolygiad-a-chamau-gweithredu-yn-y-dyfodol.pdf>
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015
- Cyfoeth Naturiol Cymru 2017
- Dyfodol Cymru: y Cynllun Cenedlaethol 2040


Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen unigryw o gydweithio, gydag ymrwymiad angerddol at fod y catalydd ar gyfer twf ranbarthol a llwyddiant cynaliadwy. Mae'r fargen yn cynrychioli'r ymrwymiadau ar y cyd a wnaed gan ddeg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i ryddhau £1.3bn o fuddsoddiad ar y cyd. Gweledigaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw "Prifddinas-Ranbarth Ffyniannus i Gymru" – canolfan lle caiff penderfyniadau eu gwneud, porth byd-

eang ar gyfer cyfalaf, masnach ac ymwelwyr, canolbwynt gwybodaeth a chanolfan boblogaeth fawr a chlwtwr busnes o bwys i Gymru. Mae ei ffordd o fynd ati i fuddsoddi a chodi'r gwastad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Canolbwyntiau a'r Dinasoedd Strategol yn darparu ac yn derbyn yr uchafswm o fudd economaidd o berthynas lle mae'r ddwy ochr yn ategu ei gilydd. Mae'n cefnogi rolau gwahanol a phenodol canolbwyntiau strategol ac yn adeiladu ar eu cryfderau allweddol i ddarparu amrywiaeth helaeth o gyfleoedd cyflogaeth atodol.

Y Porth Gorllewinol

Mae'r Porth Gorllewinol (Western Gateway) yn bartneriaeth economaidd trawsffiniol o Awdurdodau Lleol, Dinas-Ranbarthau, Partneriaethau Mentro Lleol a Llywodraethau (yng Nghymru a San Steffan), sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod ag ychwanegedd i strategaethau a strwythurau presennol yr ardal. Mae'r Porth Gorllewinol yn mynd un cam ymhellach na 'rhanbarthol'. Gan gynnwys dinasoedd craidd Bryste a Chaerdydd, mae'n ymestyn ar draws de Cymru a gorllewin Lloegr, o Swindon i Abertawe, Wiltshire a Weston-Super-Mare i Tewkesbury. Mae'n canolbwyntio ar dwf economaidd cynhwysol a glân, lle gall graddfa a chydweithio gyflawni mwy i'n pobl ac economïau ehangach ein gwledydd nag y gallai'r rhannau cyfansoddol ei gyflawni ar eu pen eu hunain. Mae ei weledigaeth yn ymwneud â hyrwyddo "Prydain werddach, decach, cryfach", a chefnogir hi gan nifer o uchelgeisiau.



CRYNODEB POLISI – LLEOL

Cynllun Corfforaethol Sir Fynwy

Mae'r Cynllun yn unol â nodau ac uchelgeisiau ein partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus, cymdeithasau tai a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r rhain a llawer mwy o sefydliadau yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy. Y blaenoriaethau sy'n berthnasol i'r cyflwyniad hwn yw:

- Cyfiawnder Cymdeithasol – cymdeithas deg a chyfartal, parchu a chynnal amrywiaeth o fewn ein cymunedau, mynd i'r afael â thodi plant a diffyg gwaith
- Mentergarwch a Chreu Swyddi – manteisio ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a lleihau tollau'r bont i agor cyfleoedd a gyrru twf economaidd fel y gall cynhyrchiant drosoli mwy o ffyniant
- Gwasanaethau Hygyrch Lleol – cynnal cynnig o wasanaethau lleol a gwella'n darpariaeth hamdden
- Darparu tai o ansawdd uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy, i ddiwallu anghenion ein cymunedau a mynd i'r afael ag anghenion ein demograffeg sy'n newid.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori ar y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd. Y Strategaeth a Ffeirir yw'r cam ymgynghori statudol cyntaf yn y broses o baratoi'r Cynllun ac mae'r gosod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnydd tir yn Sir Fynwy (ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) dros gyfnod 2018 i 2033 y Cynllun ac

mae'n pennu faint o dwf sydd ei angen a lle bydd y twf hwn wedi ei leoli'n fras.

Gweledigaeth Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy yw:

Erbyn 2033, bydd Sir Fynwy yn lle mae:

1. Pobl yn byw mewn cymunedau cynaliadwy, cydnorth sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac sy'n fwy cynhwysol, cyfartal, diogel, cydlynol, llewyrchus, ffyniannus a chytbwys yn ddemograffig. Mae cymunedau trefol a gwledig wedi eu cysylltu'n dda gyda gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol, lle cynnau agore a chyfleoedd cyflogaeth.
2. Cymunedau a busnesau yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd, yn uchelgeisiol ac wedi ei chysylltu'n dda.
3. Asedau gorau treftadaeth adeiledig, cefn gwlad, bioamrywiaeth, tirwedd ac amgylcheddol y sir wedi cael eu diogelu a'u gwella er mwyn cynnal ei chymeriad unigryw.
4. Pobl yn mwynhau ffyrdd iachach, mwy cynaliadwy, o fyw gyda gwell mynediad at gyfleoedd teithio llesol ac yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd byd-eang, gan gefnogi'n huchelgeisiau am sir ddi-garbon.

Ym mis Rhagfyr 2022, cychwynnodd y Cyngor Sir ei ymgynghoriad ar y strategaeth a ffeirir ganddo, sy'n canolbwyntio ar Strategaeth Twf o dan arweiniad demograffig, a gefnogir gan ddewisiadau gofodol sy'n canolbwyntio ar dwf yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy, sef y Fenni, Cas-gwent a Cil-y-coed gan gynnwys Glannau Hafren, yn ogystal â pheth twf yn ein haneddiadau gwledig mwyaf cynaliadwy, ac eithrio'r aneddiadau hynny yn nalgylch rhan uchaf Dyffryn Gwy. Y negeseuon allweddol o'r strategaeth a

ffefrir yw:

- Darparu ar gyfer 5,400-5,940 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun 2018-2033 (Polisi Strategol S1). Mae hyn yn cynnwys tua 1,580-1,850 o gartrefi fforddiadwy (Polisi Strategol S6). Gan fod tua 3,740 o gartrefi yn y banc tir ar hyn o bryd, bydd tir yn cael ei ddyrannu am tua 1,660-2,200 o gartrefi newydd, gan gynnwys 830-1,100 o gartrefi newydd fforddiadwy.
- Pennu'r fframwaith polisi cynllunio i alluogi darparu tua 6,240 o swyddi ychwanegol (Polisi Strategol S1) trwy ddyrannu tir digonol ar gyfer cyflogaeth a thrwy gynnwys polisiau i hwyluso twf economaidd (Polisi Strategol S12). Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei gefnogi gan Strategaeth Datblygu Economaidd.
- Canolbwyntio twf yn aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Sir – y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed (gan gynnwys Glannau Hafren) (Polisi Strategol S2). Oherwydd methiant i ganfod ateb strategol i drin ffosffadau yng Ngweithfeydd Trin Dwr Gwastraff Trefynwy o fewn cyfnod y Cynllun, ni chynigir dim dyraniadau o safleoedd newydd ym mhrif anheddiad Trefynwy nac o fewn dalgylch rhan uchaf Dyffryn Gwy i'r gogledd o Bont Bigsweir.
- Nodi Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffeirir ym mhrif aneddiadau'r Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed (Polisi Strategol S7). Bydd dyraniadau manwl eraill o safleoedd yn cael eu pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo newydd.
- Cyfyngu ar effaith newid hinsawdd trwy sicrhau bod cartrefi newydd yn barod i fod yn garbon sero-net ac â chysylltiadau da â'r aneddiadau presennol, gan ddarparu lleoedd deniadol a hygyrchu i fyw a gweithio ynddynt. Mae'n nodi polisiau strategol ar amrywiaeth o

feysydd pwnc, gan adlewyrchu'r pedair thema creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru 12.

Cynllun Llesiant Sir Fynwy

Mae rhaglen Dyfodol Sir Fynwy wedi cael ei llunio i gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff ei harwain gan Gyngor Sir Fynwy, a chytunodd partneriaid eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at ei meddylfryd wrth iddi ddatblygu amcanion llesiant a'r camau y bydd yn eu cymryd er mwyn eu gweithredu, gan gydnabod yr angen i gydweithio i fynd i'r afael â'r materion a gydnabyddir. Ym mis Gorffennaf 2017, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol eu diben o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth, tri dyhead trawsbynciol a fydd yn berthnasol i'r holl amcanion a chmau, a phedwar amcan llesiant – dau ynghylch pobl a dau ynghylch lle, fel y dangosir yn y tabl canlynol.



monmouthshire.gov.uk

Diben	Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnertht	
Ein dyhead yw ...	- Lleihau anghydraddoldeb rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau - Cefnogi a diogelu pobl fregus - Gwireddu'r buddion sydd gan yr amgylchedd naturiol i'w cynnig	
Ein hamcanion llesiant yw ...	Pobl a Dinasyddion	Lle a Chymunedau
	Rhoi'r dechrau gorau bosibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan addasu i effaith newid yn yr hinsawdd
	Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu yn economaidd ac wedi ei chysylltu'n dda

Astudiaeth Drafndiaeth Cas-gwent

Cafodd Astudiaeth Drafndiaeth Cam Un WelTAG ar gyfer Cas-gwent ei chomisiynu ar y cyd gan Gyngor Sir Fynwy, Cyngor Dosbarth Fforest Ddena a Cyngor Sir Gaerloyw yn 2018.

Bu'r astudiaeth hon yn ystyried problemau a nodi amcanion, gan ganolbwyntio ar goridau strategol yr A48 a chynnwys ystyriaethau ac effeithiau ehangach ar hyd y corridor o Lydney yn y dwyrain i Gas-gwent yn y gorllewin.

Cafodd Astudiaeth Drafndiaeth Cam Dau WelTAG Cas-gwent ei chomisiynu yn 2020 gan Gyngor Sir Fynwy gyda'n partneriaid strategol.

Fe wnaeth Astudiaeth Drafndiaeth Cas-gwent amlygu amryw o broblemau i roi sylw iddynt ynghylch trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol, ond o bosibl mai'r broblem amlycaf i raddau helaeth yw tagfeydd traffig.

Rhoddodd astudiaeth Cam 2 adolygiad cynhwysfawr o argymhellion Cam 1 gan ymchwilio ymhellach i rai opsiynau.

- Pecyn 1: Gwelliannau Teithio Llesol
- Pecyn 2: Canolbwynt Trafnidiaeth Cas-gwent a Gwelliannau i Gysylltiadau
- Pecyn 3: Ffordd osgoi Cas-gwent.

Mae pecynnau 1 a 2 wedi cael eu cymryd i Gam 3.


Cafodd Ffordd Osgoi Cas-gwent (40mya) ei hargymell yng Ngham 2 i'w chymryd ymlaen i Gam 3, i ddarparu cyswllt cerbyttffordd sengl a phont rhwng Beachley ac ardal Bulwark/Thornwell, yn uniongyrchol i'r M48.

Byddai hyn yn lleddfu tagfeydd drwy'r dref, gan ddarparu arbedion mewn amserau teithiau, lleihau llygredd aer a buddion llesiant i bawb, gan

ddarparu hefyd gysylltiadau da ar gyfer cerdded a beicio.

Mae cymryd y cynnig hwn ymlaen i Gam 3 yn gymhleth ac mae'n destun trafodaethau pellach ar hyn o bryd.

Cynllun Trawsnewid Cas-gwent- ARUP



CYNLLUN LLE CAS-GWENT

Fe wnaeth Cyngor Tref Cas-gwent adnabod yr angen i ddeall barn y gymuned leol yn y dref ac o'i chwmpas fel rhan o broses Cynllun Lle. Datblygwyd y rhaglen ymgynghori i alluogi trigolion, busnesau, rhanddeiliaid allweddol a phobl ifanc i gymryd rhan ac ymuno â sgwrs ledled y gymuned ynghylch dyfodol y dref.

Oherwydd Covid-19, addaswyd y gweithgarwch cyhoeddus ar gyfer Cynllun Lle Cas-gwent mewn ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd ar ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, a defnyddiwyd amrywiaeth o sianelau a thechnegau ar-lein i estyn allan. Cynhaliwyd gweithgareddau cymunedol ar-lein rhwng mis Mawrth a diwedd mis Mai 2021 a oedd yn cynnwys:

- Lansio gwefan y prosiect – futurechepstow.co.uk – ddechrau mis Mawrth 2021
- Gosod map ar-lein o'r dref ar y wefan
- Ffurflen arolwg (trwy'r wefan)
- Ffurflen sylwadau (trwy'r wefan)
- Grwpiau ffocws Cymunedol a Rhanddeiliaid (trwy Zoom)

Er mwyn cyfathrebu gyda chymaint â phosibl o bobl yng Nghas-Gwent ac o gwmpas y dref – cyflawnwyd y canlynol i hyrwyddo'r Cynllun Lle ac i hysbysu'r gymuned o'r cyfnod ymgynghori:

1. Dosbarthu taflenni i drigolion a busnesau
2. Posterï
3. Datganiadau i'r wasg
4. Postiadau ar dudalen Facebook y Cyngor Tref
5. Negeseuon e-bost i bob ysgol
6. Negeseuon e-bost i dros 100 o randdeiliaid allweddol

7. Creu gwefan ddwyieithog

Roedd cyfleoedd eraill yn cynnwys:


- Mapio cryfderau, gwendidau a chyfleoedd trwy 'fap tref' ar-lein
- Arolwg ar-lein
- Grwpiau Ffocws: Yn ystod mis Mai 2021 cynhaliwyd sesiynau Grwpiau Ffocws trwy ddefnyddio Zoom



ASTUDIAETHAU A CHYNLLUNIAU BYW

Mae'r Cyngor Sir a'r Cyngor Tref wedi gweld y cyfle drwy'r astudiaeth hon i wnïo a gweu gyda'i gilydd yr holl amrywiol astudiaethau, polisïau a strategaethau sy'n ymwneud â Chas-gwent, ac integreiddio'r rhain â gweithredu ar lefel leol i gyflawni amcanion a rennir ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Pan ysgrifennwyd y Cynllun Creu Lleoedd hwn, roedd yr astudiaethau a'r cynlluniau byw canlynol ar y gweill, ymysg eraill ...



Cynllun Creu Lleoedd a Thrafnidiaeth Cas-Gwent

Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2018, cyflawnwyd Astudiaeth Drafnidiaeth Arweiniad Arfarnu Trafnidiaeth (WelTAG) Cam Un (Achos Strategol Amlinellol) ar gyfer Cas-gwent, a gomisiynwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Gaerloyw a Chyngor Dosbarth Fforest y Ddena. Roedd Astudiaeth Cam Un 2018 yn canolbwyntio ar gorida strategol yr A48, a oedd yn cynnwys ystyriaethau ac effeithiau ehangach ar hyd y corridor o Lydney yn y dwyrain i Gas-gwent yn y gorllewin.

Yn 2020, cafodd Arup eu comisiynu i gyflawni Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth WelTAG Cam Dau (Achos Busnes Amlinellol) gan Gyngor Sir Fynwy, ar ran sawl sefydliad partner y Strategaeth yng Nghymru a Lloegr.

Gweithredodd yr astudiaeth ddull model busnes pum-achos (strategol, trafndiaeth, ariannol, rheoli). Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gyd-destun yr astudiaeth ac adborth gan randdeiliaid, canfuwyd nifer o broblemau, gyda rhai problemau'n digwydd ar lefel leol a oedd yn berthnasol i Gas-gwent, ac eraill yn berthnasol ar lefel ranbarthol neu strategol.

Gellir crynhoi'r problemau hyn fel a ganlyn:

- Graddau uchel o dagfeydd a thraffig cynyddol
- Cysylltedd a chyfleusterau cyfyngedig o ran bysiau
- Cost uwch teithiau trafndiaeth gyhoeddus o gymharu
- Cyfleusterau gwael ar gyfer cerbydau Allyriadau Isel lawn

- Cydnerthedd cyfyngedig i'r rhwydwaith heb fawr o ddewisiadau eraill i groesi afon Gwy
- Cysylltedd a chyfleusterau cyfyngedig o ran rheilffyrdd
- Nifer uchel o deithiau cymudo
- Problemau ansawdd aer
- Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn llethu Cas-gwent, gyda phryderon canfyddedig am ddiogelwch
- Mae'r A48 yn gwahanu'r gymuned drwy Gas-gwent.

Rhoddodd proses Cam Dau nifer o opsiynau ar restr fer, sef:

- Lleihau'r angen i deithio
- Annog ymddygiad teithio cynaliadwy, Cynlluniau Dosbarthu a Gwasanaethu nwyddau
- Gwelliannau ac ychwanegiadau teithio llesol
- Stryd Fawr Cas-gwent yn lle braf i gerddwyr
- Cynllun Rhannu Beiciau Cas-gwent
- Canolbwynt Trafnidiaeth Cas-gwent
- Gwelliannau trafndiaeth gyhoeddus tua'r gorllewin
- Gwelliannau trafndiaeth gyhoeddus tua'r dwyrain
- Parcio a theithio (rheilffordd)
- Gwelliannau i'r gwasanaeth bysiau lleol
- Tacsï ar alwad (trafnidiaeth seiliedig ar alw)
- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan
- Ffordd osgoi Cas-gwent – Opsiwn

Cerbyttfordd 60mya

- Ffordd osgoi Cas-gwent – Opsiwn 40mya 'Carbon Is'

Mae copi a adroddiad llawn Cam 2 ar gael yma:

<https://www.monmouthshire.gov.uk/2021/10/report-published-into-chepstow-traffic-and-travel/>

Cafodd amcanion diwygiedig eu creu yng Ngham Dau o Astudiaeth Drafnidiaeth Cas-gwent i adlewyrchu ac ymateb i'r sail ddiweddaraf o dystiolaeth, gan gynnwys ymdrin â'r sefyllfa bresennol, tueddiadau yn y dyfodol, blaenoriaethau rhanddeiliaid, ac ysgogwyr deddfwriaethol a pholisi.

Nod yr amcanion yw mynd i'r afael ag un neu fwy o'r problemau a ganfuwyd. Os arferir bod ymyrraeth drafndiaeth yn perfformio'n gadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r amcanion, bernir y byddai'n helpu goresgyn y problemau a ganfuwyd.

Bernir bod yr amcanion yn berthnasol ar wahanol raddfeydd gofodol, gyda rhai yn fwy perthnasol ar lefel ranbarthol neu leol, ac eraill yn berthnasol ar lefel leol.



LLUN: JOHN LORD

I grynhoi, cytunwyd i'r opsiynau a nodwyd eisoes gael eu cymryd ymlaen am astudiaeth bellach i Ganllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth WelTAG Cam Tri, wedi eu dosbarthu'n dri phecyn ar wahân. Y rhain oedd:

1. Pecyn 1: Gwelliannau Teithio Llesol [AT1 – Gwelliannau ac Ychwanegiadau Teithio Llesol; AT2- Stryd Fawr Cas-gwent yn lle braf i gerddwyr; AT3 – Cynllun Rhannu Beiciau Cas-gwent]
2. Pecyn 2: Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cas-gwent a Gwelliannau Cysylltu [PT2 – Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cas-gwent; PT7 – Parcio a Theithio (rheilffordd); PT4 – Gwelliannau Trafnidiaeth Gyhoeddus Rhanbarthol tua'r Gorllewin/Gogledd; PT5 – Gwelliannau Trafnidiaeth Gyhoeddus Rhanbarthol tua'r Dwyrain; PT8 – Gwelliannau i wasanaethau bysiau lleol; Opsiwn B1, 2 a 3: Dylanwadu ar ymddygiadau teithio; Opsiwn ULEV1: Pwyntiau gwefru cerbydau trydan; Opsiwn PT9 – Tacsï ar alw (Gwasanaethau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw)]
3. Pecyn 3: Ffordd Osgoi Cas-gwent [Opsiwn H2B – Cerbyttffordd Sengl 40mya 'Carbon Is' Beachley a Sedbury]

Ym mis Mehefin 2022, fe wnaeth Cyngor Sir Fynwy lansio ymgynghoriad ar ddyfodol trafndiaeth yng Nghas-gwent, gan ganolbwyntio ar Gyfnewidfa Drafnidiaeth. Mae hyn yn dilyn o'n hymgynghoriad blaenorol ar Astudiaeth Drafnidiaeth Cas-gwent yn 2020. Gellir hollti'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth yn sawl gwahanol elfen, ac mae'n archwilio dulliau teithio fel y rhwydwaith bysiau, trafndiaeth seiliedig ar alw fel tacsï, seilwaith cerbydau trydan a chyfleusterau parcio a theithio.

Fel rhan o waith datblygu rhan 3, ymgynghorwyd ynghylch nifer o gynigion o fewn y gymuned ac ymhlith rhanddeiliaid. Y rhain oedd:

- PT2 – Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cas-gwent;
- PT4 – Gwelliannau trafndiaeth gyhoeddus tua'r gorllewin a PT5 – gwelliannau trafndiaeth gyhoeddus tua'r dwyrain;
- PT7 – Parcio a Theithio (rheilffordd);
- PT8 – Gwelliannau i wasanaethau bysiau lleol
- PT9 – Gwasanaethau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw
- ULEV1 – Pwyntiau gwefru cerbydau trydan; a
- B1, 2 a 3 – Dylanwadu ar ymddygiadau teithio.

Mae gan y cynigion hyn berthynas uniongyrchol â'r strategaeth a'r cynllun creu lleoedd hwn a manylir ymhellach arnynt felly yn adran cynllun gweithredu'r ddogfen hon.

Chepstow Transport Hub and Active Travel online public consultation

Your chance to comment

Monmouthshire County Council are seeking your comments on their transport hub and active travel proposals.



This consultation follows the previous consultation on the Chepstow Transport Study in 2020.

Since then, we have considered the feedback and recommendations provided at that stage of the study. We are now further developing and seeking your feedback on two work packages: Chepstow Transport Hub and Active Travel improvements.

We are not holding in-person events at this time; however, a virtual exhibition room has been created allowing you to view the information boards and documents that explain our proposals.

The virtual exhibition room can be accessed via chepstowtransport.virtual-engage.com or alternatively you can gain access by scanning the QR code below.

Our online public consultation is taking place between 14 June and 12 July 2022. Please respond by 23:59 on Tuesday 12 July 2022.





Ar ôl deall cyd-destun polisi'r dref, mae angen deall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n lleol i Gas-gwent fel ein bod yn datblygu syniadau lleol sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae'r buddsoddiad yn y sgysiau Cynllun Lle wedi bod yn ystyrlon ac ar y raddfa iawn gyda'r angen i ddefnyddio'r ddeialog hon fel parhad y broses ond hefyd wedi ei chymhwyso â data ac ystadegau, yn ogystal ag arsylwadau ac asesiadau ffisegol.

SGYRSIAU O'R CYNLLUN LLE

Traffig, Trafnidiaeth, Parcio a Phrifyrdd

- Mae straen ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael effaith economaidd ac amgylcheddol – roedd pobl yn mynegi pryder na roddir sylw i'r sefyllfa bresennol.
- Mae angen ystyried opsiynau parcio – nid dim ond parcio ceir (am ddim) a gwell lleoedd parcio i'r anabl, ond hefyd lle i barcio beiciau (angen gwneud cysylltiadau â Chynllun Pontio Trafnidiaeth Cas-gwent) gan fod angen galluogi ac annog defnyddio llai ar geir yn y dref lle bo'n bosibl.
- Dylid ystyried atebion arloesol i alluogi pobl i symud o gwmpas heb ddefnyddio'r car fel bws trydan o gwmpas y dref
- Mae angen strategaethau trafndiaeth cydgysylltiedig i integreiddio trenau a bysiau gyda gwahanol ddulliau o deithio megis ceir (trydan) ac e-feiciau.
- Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch – ar gyffyrdd i yrwyr ac wrth groesi ffyrdd i

gerddwyr – dros y ffordd ac o dan y ffordd.

- Nid yw trafndiaeth gyhoeddus yn ddelfrydol i bobl ifanc – mae cysylltiadau yn wael i ddinasoedd fel Bryste a Chaerdydd.
- Teithio llesol – beicio a cherdded (fe wnaeth y pwnc hwn ddenu llawer o sylwadau ar fap y dref). Mae cerdded i ymwelwyr a phobl leol yn bwysig iawn i lesiant ac economi'r dref a hefyd i Gymru. Caiff gwelliannau diweddar eu croesawu ond mae angen mwy
- Angen llwybrau diogel i blant gerdded a beicio'n ddiogel o gwmpas y dref ac i'r ysgol.
- Llwybr penodol o Gas-gwent i Tidenham (ystyried pont i gerddwyr).
- Angen atebion teithio llesol diogel (ee bysiau camu'n ôl ac ymlaen iddynt, llwybrau beicio).
- Angen lle i barcio beiciau.

Canol y dref

- Pryder ynghylch siopau gwag yn y dref / dyluniad ffryntiau siopau a golwg y ganolfan siopau
- Oherwydd topograffeg, mae pryderon ynghylch hygyrchedd i bobl anabl yn y dref – angen llwybrau hygyrch.
- Ystyried digwyddiadau a gwyliau i roi Cas-gwent ar y map.
- Cynyddu bywiogrwydd canol y dref trwy fyw a gweithio yn y canol.
- Pedestrianeiddio – parhau mesurau Covid-19 neu beidio?
- Angen tirlunio a gweithiau celf i wella golwg cefnau siopau o'r A48 brys.



Cyfleusterau, Gwasanaethau a Chymuned

- Dim digon o gyfleusterau / lleoedd i bobl ifanc yn eu harddegau i fynd iddynt yng Nghas-gwent.
- Diffyg darpariaeth ar ôl ysgol – mae clybiau chwaraeon yn amlwg ond does dim llawer o gyfleusterau / clybiau i ddarparu ar gyfer pob diddordeb.
- Angen gwell cysylltiadau â'r ganolfan hamddan – ymgorffori cysylltiadau â'r ysgol uwchradd.
- Cynnal gwasanaethau hanfodol megis banciau a'r swydd bost, ac mae'r ysbyty'n bwysig iawn. Hefyd cynnal cyfleusterau fel y Neuadd Ymarfer.
- Roedd nifer o bobl a ddaeth yno yn dod o ardal Bulwark ac yn mynegi pryderon cryf am ddiffyg buddsoddiad y neu canolfan leol sydd mewn cyflwr difrifol o wael.
- Pwysig manteisio ar wybodaeth leol.

Themâu**Yr Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth**

- Mae hanes y dref yn gadarnhaol (castell / mur y porthladd) ond angen mwy o bwyslais ar ei hanes.
- Mae glan yr afon yn ased y dylid manteisio mwy arno.
- Eglwys y Santes Fair – a ellir ymchwilio i ddibenion eraill iddi?

Tai, Swyddi a'r Economi

- Angen unedau tai llai i bobl ifanc sy'n cychwyn allan – fforddiadwy – yn enwedig yng nghanol y dref. Roedd pobl hyn a rhai â'u plant wedi gadael y nyth hefyd yn cael eu hamlygu fel grŵp a oedd angen cartrefi llai.
- A ellir annog pobl i weithio o gartref – lleihau teithio i'r gwaith?
- Angen safleoedd diwydiannol bach – annog diwydiannau/busnesau "modern" i adleoli i Gas-gwent – manteisio ar asedau'r dref!

Yn benodol, ac er enghraifft i ddeall pam fod gennym glwstwr technoleg feddygol yn Thornwell a gallwn adeiladu arno.

- Angen gwella seilwaith cyn adeiladu tai newydd.

Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth

- Mae llygredd yn bryder mawr o ran iechyd – ac roedd llawer o'r drafodaeth yn gysylltiedig â thraffig a'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae Transition Chepstown yn grŵp lleol sy'n hwyluso gweithredu lleol ynghylch sut y gall y dref ymateb i newid yn yr hinsawdd.
- Cafodd mynediad i lecynau gwyrdd lleol a'r amgylchedd naturiol ei amlygu fel un o asedau'r dref.

Twristiaeth

- Angen denu ymwelwyr a chynyddu cyfraddau troedio yn y dref ac adeiladu ar lwyddiant marchnad Cas-gwent.
- Arwyddion i dwristiaid yn broblem ar draws

Cas-gwent.

- Hyrwyddo'r dref fel porth i Sir Fynwy a Chymru.
- Hyrwyddo Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybr yr Arfordir, Fforest y Ddena, Clawdd Offa, Taith Gerdded Dyffryn Gwy etc, canolbwyntio ar asedau Cas-gwent.

Llecynau Gwyrdd ac Agored a Chwarae

- Angen diweddarau offer chwarae mewn llawer o leoedd chwarae – ymgynghori gyda phobl ifanc. Ystyried offer campfa. Archwilio offer chwarae.
- Angen llwybr hygyrch i Goed Barnett.
- Atgynhyrchu prosiect llwyddiannus Garden City a'r cynllun perllannau cymunedol mewn rhannau eraill o'r dref.

Mae'r gweithgarwch ymgynghori cymunedol wedi helpu datblygu prosiect Cynllun Lle cynhwysol, ac ar sail ar yr adborth gan bobl a sefydliadau lleol, daeth datganiad drafft o'r weledigaeth a chwe thema glir i'r amlwg. Y chwe thema a gynigir yw:



GWELEDIGAETH CYNGOR TREF CAS-GWENT 2022-2027

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaeth Cyngor Tref Cas-gwent fabwysiadu ei ddogfen Gweledigaeth ar gyfer y Dref. Ei weledigaeth yw:

Cas-gwent ... Lle i Fyw, Gweithio ac Ymweld

Y porth gwyrdd i Gymru

Fel y dref gyntaf yng Nghymru, ni yw'r fynedfa i waelodion Dyffryn Gwy mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cas-gwent yw man gychwyn a diwedd Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Arfordir Cymru a Thaith Gerdded Dyffryn Gwy.

Cyrchfan i'r celfyddydau

Tref gyda thraddodiad cyfoethog yn y celfyddydau a cherddoriaeth a ddarperir i'n trigolion a chan ein trigolion. Rydym yn falch o'n sylfeini diwylliannol ysbrydoledig ac yn dymuno bod yn gyrchfan i gerddoriaeth a'r celfyddydau.

Tref o arwyddocâd hanesyddol balch.

Tyfodd Cas-gwent fel tref farchnad brysur o'r castell cerrig hynaf sydd wedi goroesi ym Mhrydain. Mae gennym hanes cyfoethog a hudolus sy'n rhychwantu canrifoedd.

Mae meysydd penodol y canolbwyntir arnynt yn cynnwys

TRAFNIDIAETH

Mae arnom eisiau gweld y gwelliannau a ganlyn:

- Mynediad a mynediad i'r anabl i'r orsaf drenau a'r platfform tua'r gorllewin
- Bysiau amlach, llwybrau a llwybrau beicio i annog teithio llesol
- Cysylltedd rhwng glan yr afon, Bulwark, canol y dref a phen uchaf Cas-gwent

- Priffyrdd – wynebau'r ffyrdd, palmentydd, cyrbiau isel
- Mae arnom eisiau gweld y canlynol yn cael eu darparu:
 - Beiciau a sgwteri trydan ar gyfer trafndiaeth gwyrdd
 - Parcio am ddim o fewn Cas-gwent
 - Cyfnewidfa drafndiaeth sy'n gysylltiedig â'r orsaf drenau

TAI

Mae arnom eisiau sicrhau bod tai yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion lleol:

- Trwy asesu'r angen, a datblygu tai cymdeithasol
- Trwy ddarparu cartrefi diogel, sefydlog, sy'n cael eu cadw'n dda i bawb.

IECHYD A LLESIANT

Mae arnom eisiau gweld:

- Meddygfa deulu yn Bulwark
- Gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda dementia
- Uned Mân Anafiadau
- Mwy o ddefnydd o bob adeilad cymunedol gan unigolion a grwpiau
- Ehangu cyfleusterau Gofal Iechyd Sylfaenol yng Nghas-gwent.

OUR VISION FOR CHEPSTOW 2022-2027



covering the council wards of:

**Thornwell, Bulwark, Maple Avenue, Larkfield,
Chepstow Castle, Mount Pleasant, St Kingsmark**



WHAT IS CHEPSTOW

The green gateway to Wales

As the first town in Wales, we are the entrance to the Lower Wye Valley in an Area of Outstanding Natural Beauty. Chepstow is the start and finish of Offa's Dyke Path, the Wales Coast Path and the Wye Valley Walk.

A destination for the arts

A town with a rich tradition in the arts and music provided for and with our residents. We are proud of our inspiring cultural foundations and aspire to be a destination for music and the arts.

A town of proud historic significance

Chepstow grew as a bustling market town from Britain's oldest surviving stone castle. We have a rich and fascinating history spanning centuries.

**CHEPSTOW ...
...A PLACE TO LIVE,
WORK AND VISIT**

OUR VALUES

These will inform every decision we make:

- AMBITION
- INCLUSIVITY
- RESPECT
- GREEN

GWYRDDU

Gweithio gyda thirfeddianwyr ar y canlynol:

- Gwella llecynnau gwyrdd
- Plannu mwy o goed
- Cydweithio ar gasglu sbwriel
- Creu gwell bioamrywiaeth

A:

- Gweithio gyda Transition Chepstow i gynnal a hyrwyddo perllannau Cas-gwent
- Ymgychu ar lygredd yn y dref a'r afonydd

SIOPAU, LLETYGARWCH A THWRISTIAETH

Gweithio gyda busnesau ar y canlynol:

- Gwella ardaloedd siopa Stryd Fawr Cas-gwent a Bulwark
- Darparu cymorth i fusnesau lleol: cronfeydd a safleoedd i gychwyn busnesau newydd
- Archwilio dewisiadau ar gyfer defnydd cymunedol o hen adeilad Banc Barclays
- Archwilio'r defnydd o enillion cynllunio o ddatblygiad Lidl i ddarparu llecyn cyhoeddus, i gyfarfod, chwarae ac ymlacio
- Cefnogi datblygiad gwestyau a thai gwely a brecwast ledled Cas-gwent

SEILWAITH

Ar sail adborth gan y cyhoedd, byddwn yn ceisio:

- Monitro effaith sefyllfaoedd traffig yng nghanol y dref, ac uwchraddio'r toiledau cyhoeddus yn nhref Cas-gwent
- Darparu toiled cyhoeddus yn Bulwark, darparu meinciau ar hyd y llwybrau cerdded o amgylch Cas-gwent
- Adolygu a gwella golwg adeiladau cyhoeddus, archwilio dewisiadau o ran cyllid ar gyfer gwelliannau i du blaen siopau ac adeiladau
- Gwella arwyddion i safleoedd twristaidd a chyfleusterau eraill, ee adeiladau cymunedol
- Sicrhau lleoedd parcio am ddim i alluogi ymwelwyr i grwydro.

PLANT A PHOBL IFANC


- Creu atyniad lle chwarae yn The Dell. Creu fforwm ieuenctid
- Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer chwarae ym mhob rhan o Gas-gwent
- Gwrandio ar ysgolion a chyd-drafod â hwy. Cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau arbenigol, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, drama ac ymweliadau cyfnewid
- Cefnogi a datlbygu darpariaeth allgwrwclwr i bobl ifanc.

HAMDDEN, DYSGU AC ADDYSG

- Gwella addysg oedolion ac addysg barhaus
- Gweithio gyda phartneriaid i annog busnesau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc.

CELFYDDYDAU

- Cefnogi a hyrwyddo'r Wyl Gelfyddau flynyddol. Datblygu lleoliad celfyddydau yn Bulwark
- Darparu artist preswyl
- Priordy'r Santes Fair fel canolfan neu gyrchfan celfyddydau. Datblygu calendr uchelgeisio o ddigwyddiadau tymhorol ac untro, a gweithio gyda thîm digwyddiadau Cas-gwent
- Cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau cerddorol o dan arweiniad y gymuned ar y llwyfan band
- Parhau i asesu'r angen am drosglwyddo ased y Neuadd Ymarfer i Gyngor Tref Cas-gwent
- Asesu'r angen i gadw adeilad yr Hen Lyfrgell
- Y Cyngor Tref i ariannu Sioe Ddan Gwyllt flynyddol
- Y Cyngor Tref i ariannu bandiau ar y llwyfan band.




Pennod 03

Heriau a

Chyfleoedd

3



DADANSODDIAD DATA CRYNO

Gan adeiladu at y sgysiau, gall data defnyddiol a gwybodaeth ddaearyddol am Gas-gwent ein helpu ni i adnabod cyfleoedd i'r gymuned, busnesau lleol a grwpiau a sefydliadau eraill. Mae data ac ystadegau yn ein helpu ni hefyd i ddeall ein perthynas â ffigurau am Gymru gyfan a hefyd sut mae'n cymharu â lleoedd eraill sy'n debyg o ran maint a daearyddiaeth.

Canol y Dref

Mae'r hyn sydd gan ganol tref Cas-gwent i'w gynnig o ran siopau hwylus yn tueddu i aros yn gyson. Mae'r sector gwasanaethau, sy'n cynnwys bwyd a diod a chludfwyd wedi amrywio dros amser ond wedi dal ei dir gyda lleihad o 7 yn unig ers y nifer uchaf erioed yn 2013.

Gan ddilyn y darlun cenedlaethol mewn prif strydoedd, mae nwyddau cymhariaeth (pethau heblaw bwyd, ee dillad a nwyddau tŷ) wedi dilyn tueddiad ar i lawr, gyda 59 o unedau wedi eu cofnodi yn 2020 o gymharu â 73 yn 2005.

Roedd y gyfran o siopau cenedlaethol o fewn yr ardal siopa ganolog yn 12.4% ar adeg yr arolwg yn 2020, sy'n is na'r Fenni (16%), Trefynwy (17%), a Chil-y-coed (13%).

O ran eiddo gwag, dengys arolwg siopau'r Cyngor yn 2020 fod cyfraddau eiddo gwag o 13.5% yn 2020 yr uchaf ers 2003 (gweler siart gyferbyn) gyda chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 14.5% yn chwarter 3 o 2021 yn ôl Consortiwm Siopau Prydain. Mae ffyrntiadau eilaidd canol y dref yn tueddu i fod yn gyson â chyfartaledd Prydain o eiddo gwag ar 14.4% a'r prif unedau bron i 3 phwynt canran yn is ar 11.8%.

Pobl

Ardal ward Kingsmark sydd â'r boblogaeth uwch (3,189) gydag ardal canol y dref, St Mary's, yr isaf ar 1,916. Gan Kingsmark hefyd mae'r gyfran uchaf o bobl dros 65 oed o gymharu ag ardaloedd eraill o'r dref gydag ardal Thornwell yn cynrychioli'r nifer isaf ar gyfer y grwp oedran hwn.

Mae pobl iau (16 i 17 oed) yn tueddu i fyw yn ardal Kingsmark (110) o gymharu â 38 yn St Mary's. Yn Thornwell mae'r nifer uchaf o bobl 25 i 49 oed yn y dref – 982 o gymharu â 476 yn Larkfield sy'n tueddu i awgrymu bod y bobl hyn yn symudol, ac wedi eu lleoli yn gymdogaeth oherwydd patrymau teithio i'r gwaith.

Cyflogaeth

Nid yw Cas-gwent yn lle sy'n ddibynol ar y sector cyhoeddus am gyflogaeth, gyda chynrychiolaeth is na'r cyfartaledd mewn ieuchyd a gwaith cymdeithasol, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus/amddiffyn a nawdd cymdeithasol. Mae'n uwch mewn cyfanwerthu, manwerthu ac atgyweirio cerbydau; llety, bwyd a gwasanaeth; cyllid ac yswiriant a phroffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Mae hyn oherwydd nifer o stadau diwydiannol yn Bulwark a Thornwell sydd â swyddfeydd ar gyfer y sector cyllid ac yswiriant a gweithdai ac unedau atgyweirio bach.

Sgiliau a Chymwysterau


Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng y math a lefelau o gymwysterau a sgiliau mewn cymuned a'r incwm, ffyniant a chyfoeth sy'n cylchredeg o fewn yr economi leol a'r effaith lluosai yn sgil hynny. Mae gan hyn berthynas hefyd ag ieuchyd a llesiant cyffredinol y gymuned a'i thrigolion.

Mae Cas-gwent â chyfran sylweddol is na chyfartaledd Cymru o bobl sydd heb ddim cymwysterau, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer trigolion sydd ag 1 i 4 lefel O/TAU/TGAU, ac eto'n tan-berfformio o ran cymwysterau lefel 3 sy'n ymwneud â phobl gyda 2 lefel A a mwy. Mae'n sylweddol uwch fodd bynnag o safbwynt y bobl hynny sydd â Gradd neu Radd Uwch.


Amddifadedd

Dangoswyd mai ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA) Thornwell yw'r gymdogaeth sydd ar y gwaelod yn enwedig o ran lefelau incwm ac ansawdd ieuchyd, gydag addysg heb fod ymhell ar ôl. Ffigur cyffredinol y mynegai ar gyfer Thornwell yw 1 mewn 450 o gymharu â 1903 ar gyfer St Kingsmark 1. Mae LSOA St Mary's hefyd yn dangos amddifadedd uwch na'r cyfartaledd mewn meysydd fel diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol, gyda'r olaf yn cael ei amlygu fel pryder hefyd yn LSOA St Christopher a Thornwell 1 a 2 yn dilyn yn agos y tu ôl iddo.

Cyfradd eiddo gwag canol y dref



Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cas-gwent



DADANSODDIAD STRATEGOL O'R LLE

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn edrych ar Gas-gwent fel lle cyfan a'i heriau a'i gyfleoedd. Mae'n ystyried elfennau allweddol ar lefel lle strategol.

- Dadansoddiad cerbydol
- Dadansoddiad cerddwyr
- Asedau allweddol
- Llecynnau gwyrdd allweddol
- Prif gymdogaethau

Mae'r uchod yn helpu penderfynu sut mae pobl yn symud trwy ac o gwmpas Cas-gwent yn ogystal ag adnabod lle gallai'r prif atyniadau a chyrchfannau fod. Mae hyn yn helpu penderfynu, ar lefel strategol, y meysydd hynny y gallai fod angen eu hystyried ar gyfer ymyraethau a gwelliannau wedi eu targedu ar lefel lle cyfan.



DADANSODDIAD CERBYDOL STRATEGOL

Mae Cas-gwent mewn sefyllfa dda ar goridor yr M48/M4 sy'n darparu cysylltiadau strategol â Chaerdydd, Bryste, rhanbarthau ehangach de-orllewin Lloegr a'r tu hwnt, gyda chefnffordd yr A48 trwy'r dref yn cysylltu â Fforest y Ddena. Mae'n hysbys fod yr A48 trwy Gas-gwent yn orlawn, gyda thagfeydd a rhwystrau rhag symud yn cael eu creu gan y croesfannau dros yr afon a'r topograffi. Mae Sir Fynwy wedi nodi coridor yr A48 fel Ardal Fonitro Ansawdd Aer ac mae ymgynghoriadau diweddar y Cynllun Lle wedi codi pryderon megis yr A48 yn creu rhwystrau rhag symud i gerddwyr a beicwyr.

Mae dwy groesfan dros Afon Gwy yng Nghas-gwent ar hyn o bryd: yr A48 i'r gogledd-ddwyrain, yn gyfochrog â phont y rheilffordd, yn cysylltu â Tutshill/Sedbury, Lydney a'r tu hwnt a'r bont drawiadol o arwyddocâd hanesyddol, Pont Cas-gwent (Hen Bont Gwy) i'r gogledd gerllaw'r castell, o Stryd y Bont, y bont ffordd bwa haearn fwyaf yn y byd. Nid yw'r naill ffordd na'r llall yn cynnig llwybr addas i gerddwyr a beicwyr, heb sôn am fynediad i'r anabl, eto mae cymunedau Cas-gwent yn ehangu i'r dwyrain o'r afon, i Tutshill, Sedbury a Beachley, gyda phlant ysgol o bob oed yn teithio dros yr afon yn ddyddiol.

Bydd y twf a gynllunir mewn tai yn y dyfodol, nid yn unig yng Nghas-gwent a'r aneddiadau o'i gwmpas, ond yn Sir Fynwy fel cyfanrwydd a thwf ardaloedd cyfagos megis Fforest y Ddena (8,000 o dai wedi eu clustnodi yng 'Nghynllun 41' Fforest y Ddena 2018) yn arwain at fwy o straen ar yr A48 a'r rhwydwaith ffyrdd o'i chwmpas, sydd eisoes yn fregus, gyda goblygiau i'r dref ac ardaloedd ehangach megis rhwng Cas-gwent a Lydney.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydweithio gyda Cyngor Tref Cas-gwent a phartneriaid perthnasol y Cyngor Sir i sicrhau bod y rhwydweithiau trafndiaeth a theithio llesol yn cael eu gwella a'u rheoli, er mwyn diogelu a gwella llesiant trigolion, ac annog ymwelwyr i'r dref.



DADANSODDIAD STRATEGOL CERDDWYR

Mae Cas-gwent wedi ei leoli ar gychwyn (neu ddiwedd) Llwybr Cenedlaethol Arfordir Cymru. Mae gan hyn y potensial i'w nodi fel cyrchfan i gerddwyr. Mae datblygiad newydd ardal y Brunel Quarter yn cynnig cyfle i wella cysondeb Llwybr yr Arfordir, trwy ehangu mynediad at ran o lan yr afon a oedd gynt yn breifat. Gyda gwelliant i'w gysylltiadau iddo, mae gan Llwybr Arfordir Cymru y potensial hefyd o gynnig gwell cysylltiadau lleol. Gallai ddarparu cysylltiadau cadarnhaol a deniadol, oddi ar y ffordd, o fferm Newhouse i ganol y dref, gan fynd heibio i Thornwell, Bulwark a'r Garden City ar y ffordd.

Yn ogystal â Llwybr Arfordir Cymru, mae amryw o lwybrau anffurfiol sy'n arwain i ganol y dref a chyrchfannau eraill i gerddwyr. Mae'r rhain yn amrywio mewn ansawdd o goridorau gwyrdd deniadol oddi ar y ffordd, i lwybrau cul ansafonol ar hyd ffyrdd prysur. Mae cyfle i gyflawni gwelliannau wedi eu targedu i'r lwybrau anffurfiol allweddol hyn i gerddwyr.

Un o'r prif rwystrau rhag cerdded a beicio o fewn Cas-gwent yw ei dopograffeg. Mae cymdogaethau Thornwell, Bulwark, Garden City, Larkfield, Mouton, Kingsmark a Bayfield i gyd yn uwch na chanol y dref a glan yr afon. Mae hyn yn cael effaith ar pa mor ddeniadol a rhwydd yw cerdded a beicio i ganol y dref, yn enwedig ar y ffordd yn ôl, a fyddai'n gyffredinol i fyny gelltydd. Mae'r canfyddiad hwn yn dwysáu'r angen am ymyraethau cadarnhaol i'r lwybrau anffurfiol allweddol: er enghraifft cyflwyno mannau gorffwys wedi eu lleoli'n strategol a allai fod o fewn cilfachau deniadol ar ochr y ffordd.




Llwybr Arfordir Cymru



Palmentydd cul ar ffyrdd prysur



Topograffi heriol



ASEDAU ALLWEDDOL YNG NGHAS-GWENT

Fel canol tref, mae Cas-gwent yn elwa o nifer o asedau, atyniadau a chyrchfannau. Mae'r rhain yn amrywio'n ôl eu natur a'u math:

Strategol / Ledled y Dref

- Ysbyty Gymuned
- Canolfan Hamdden
- Craidd siopa canol y dref
- Gorsaf drenau
- Llyfrgell

Lleol

- Ysgolion – uwchradd a chynradd
- Canolfannau lleol ee siopau Bulwark
- Parciau a lleoedd i chwarae
- Ardaloedd cyflogaeth
- Llyfrgell
- Meddygfeydd
- Eglwysi
- Neuaddau a chyfleusterau cymunedol

Twristiaeth

- Castell
- Glan yr afon
- Llwybr Arfordir Cymru
- Amgueddfa

Mae'r cyfuniad uchod yn creu lle sy'n darparu ar gyfer trigolion lleol, trigolion ardal ehangach y mae Cas-gwent yn ganolfan leol iddynt, ac ymwelwyr o leoedd pellach i ffwrdd.




Stryd Fawr Cas-gwent (yn ystod y pandemig COVID-19)



Canolfan siopa cymdogaeth Bulwark



Castell Cas-gwent



1. Cysylltiadau tuag at y cae rasio a'r gogledd
2. Ysgol uwchradd
3. Y Dell
4. Castell ac Amgueddfa Cas-gwent
5. Glan yr afon, tafarndai a bariau. Digwyddiadau llwyfan band
6. Yr eglwys a llwybr teithio llesol tua'r dref
7. Llyfrgell a maes parcio i ganol y dref
8. Canol y dref
9. Gorsaf drenau (lle newydd i droi bysiau)
10. Datblygiad Brunel Quarter a glan yr afon
11. Ysbyty Cymunedol
12. Siopau ac ardal ddiwydiant Bulwark

LLECYNNAU GWYRDD ALLWEDDOL

Mae Cas-gwent yn ffodus o gael cyfres o lecynnau agored naturiol a ffurfiol sydd ar wasgar. Fel y gellir gweld o'm map, maent wedi eu lleoli ar hyd a lled yr anheddiad fel bod gan bob cymdogaeth fynediad at ryw fath o lecyn gwyrdd agored.

Yn ogystal, mae amryw o leoedd chwarae i blant, unwaith eto, wedi eu gwasgaru'n dda ar draws y dref a'i chymdogaethau. Mae llawer o'r rhain yn ffurfio rhan o strategaeth wella bresennol a byddant yn elwa'n fuan ar uwchraddio a buddsoddiad.

Fel y trafodwyd, mae Llwybr Arfordir Cymru yn cychwyn ac yn gorffen yng Nghas-gwent. Mae hyn yn cynnig llwybr hamdden llinellol drwy'r dref o lan yr afon. Mae gan hyn y potensial o gael ei wella yn dilyn agor/cwblhau datblygiad newydd y Brunel Quarter. Mae'r datblygiad hwn yn rhoi llawer gwell mynediad i'r cyhoedd i lain sylweddol o lan yr afon.

Mae Llwybr Dyffryn Gwy yn cynnig llwybr cerdded hamdden gwyrdd i'r gogledd o ardal glân yr afon yn y dref, ar hyd Afon Gwy. Mae cyfle i hyrwyddo hyn ymhellach a'i gysylltu â Llwybr Arfordir Cymru.



Y Dell / y Castell



Llecyn agored Garden City



Lle chwarae a pharcio Bulwark



PRIF GYMDOGAETHAU

Yn ogystal â chanol y dref, mae Cas-gwent yn cynnwys cyfres o gymdogaethau sydd wedi eu diffinio'n glir. Mae gan bob un ei gymeriad ei hun, sy'n amrywio o gymdogaeth hyn Garden City i'r ardal fwyaf newydd Bayfield a Barnett's Wood.

Mae pob cymdogaeth wedi cael ei hasesu ac mae ganddynt rai o'r cyfleusterau allweddol:

- Siopau
- Cyflogaeth
- Dibenion cymunedol
- Lleoedd Chwarae
- Ysgolion

Fel y gelleir gweld o'r diagram, mae gan y mwyafrif o'r cymdogaethau fynediad at y rhan fwyaf o'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer bywyd bob dydd. Yr eithriad yma yw ardal Bayfield a Barnett's Wood sy'n ddatblygiad preswyl mwy diweddar.




Mynediad at ysgolion



Mynediad at gyfleusterau chwarae




Mynediad at siopau



YSTYRIAETHAU A CHYFLEOEDD AR SAIL LLE

- Creu canolbwynt allweddol i ddenu pobl o'r dref tuag at Lwybr Arfordir Cymru
- Cyfle i wella cysylltiadau rhwng y castell, y ganolfan groeso a'r amgueddfa a gwella tir y cyhoedd
- Cyfle i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a Welsh Street
- Dim llawer o wasanaethau yn y Castell. Mae'r ardal yn brin o seddau, byrddau picnic, gwasanaethau gweryslla dros nos etc.
- Prif ffordd tuag at y gogledd (tuag at y cae ras a Dyffryn Gwy)
- Symudiadau pobl trwy'r Dell tuag at ben uchaf canol y dref
- Llwybr cerddwyr o'r safle bysiau i'r maes parcio a'r siopau yn yr arced
- Symudiadau pobl trwy'r Dell tuag at ben uchaf canol y dref
- Mae llif traffig yn achosi tagfeydd yma, cyfle i ailfeddwl y drefn hon
- Cyfle i gyfeirio at y ffordd hon fel llwybr teithio allweddol o Bulwark i'r dref
- Gall palmentydd cul yma rwystro pobl rhag defnyddio hyn fel llwybr i Bulwark
- Cyfle i greu canolbwynt allweddol yn y parc yma
- Annog cysylltiadau cerdded trwy ddatblygiad preswyl ar hyd coridor gwyrdd
- Y brif ffordd drwy Bulwark tuag at ganol tref Cas-gwent
- Cysylltiadau o'r dref i ddatblygiad preswyl Pont Mabey
- Prif lwybr cerdded o Bulwark tuag at yr orsaf drenau a chanol y dref
- Cyswllt posibl i gerddwyr (amodol ar dopograffeg y lleoliad hwn)
- Mae Bulwark ar hyn o bryd yn ffordd drwodd, dim lle na rheswm dros aros a threulio amser yma. Cyfleoedd i ailfeddwl traffig yn y lleoliad hwn a chyfeirio at lwybrau drwodd i'r dref i gynyddu teithio llesol i'r trigolion





CRYFDERAU

- Porth i Ddyffryn Gwy o'r de
- Tref furiog hanesyddol adnabyddus am ei chastell a'i lleoliad ar lan Afon Gwy
- Canol tref llawn cymeriad o fewn ardal gadwraeth gyda rhai adeiladau a strwythurau allweddol nodedig – Gatws y Dref, Hen Bont Gwy, Eglwys Priordy'r Santes Fair
- Lleoliad gerllaw'r M48 a Phont Hafren
- Cae rasio Cas-gwent – cartref rasio ceffylau, cyngherddau a digwyddiadau
- Rhai busnesau annibynnol nodedig yng nghanol y dref
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau canol y dref ee Castle Rock, Gwyl Gelfyddydau, Gwyl Gerdded a mwyl
- Llawer o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol sydd ag ymrwymiad angerddol i Gas-gwent
- Rhai cyflogwyr cryf mewn ymchwil a datblygu, technoleg, etc
- Mae teimlad o gymdogaeth mewn lleoedd fel Bulwark
- Llwybrau pellter hir – Llwybr Arfordir Cymru, Clawdd Offa, Taith Gerdded Dyffryn Gwy,
- Twnel Tidenham
- Treftadaeth Afon Gwy – adeiladu cychod, paentwyr, porthladd, fferi
- Pobl nodedig – yr awdur J K Rowling, y beiciwr Geraint Thomas



CYFLEOEDD

- Proses y Cynllun Lle – dadlau'r achos dros newid a chyllid
- Prynwyr tai o Fryste yn dod â galw newydd yn y dref
- Tyfu clystyrau penodol o fusnesau canol y dref – celfyddydau, bwyd a diod, diwydiannau creadigol a chymunedol
- Gallai rhai adeiladau mawr yng nghanol y dref agore fel cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol
- Twf mewn gweithgareddwch celfyddydol – gwyliau, orielau, siopau, digwyddiadau, clybiau
- Cysylltu'r Castell, yr Amgueddfa a Glan yr Afon fel cyrchfan fwy cydlynol
- Buddsoddiad ar y gweill yn y ganolfan hamdden a champws yr ysgol gyfun
- Creu lleoedd bach i ganolig eu maint ar gyfer cychwyn busnesau ac arloesi
- Canolfan i arlunwyr, gwneuthurwyr a chynhyrchwyr o waelodion Dyffryn Gwy, Fforest y Ddenau a Gwastadeddau Gwent
- Manteisio i'r eithaf ar fentrau'n ymwneud â cherdded a'u buddion economaidd i'r dref – ee datblygiad Cylchdaith Sir Fynwy



GWENDIDAU



- Mae ei agosrwydd at Fryste yn arwain at golli gweithgarwch, yn benodol siopau a gweithgareddau sy'n ymwneud â hamdden
- Dwysedd traffig ar yr A48 a'i effaith o ganlyniad ar y rhwydwaith priffyrdd lleol, ansawdd amgylcheddol a pherfformiad economaidd y dref
- Mae topograffi canol y dref yn creu heriau o ran rheoli'r gyrchfan a'i hygyrchedd
- Mae perfformiad canol y dref yn dilyn tueddiadau'r Deyrnas Unedig mewn siopa ond gwaethygir hyn gan ei sialensau ffisegol, y traffig a'r diffyg cydgysylltu
- Pcedi o amddifadedd sy'n gysylltiedig ag ieuchyd, addysg ac incwm ac mae gan rai cymdogaethau ansawdd amgylcheddol gwael
- Llawer o deithio ymhell i'r gwaith a dim clystyrau cryf o waith cyflogedig o ansawdd uchel
- Mae'r farchnad dai wedi denu prynwyr o Fryste gan eu bod yn rhatach ac mae hyn wedi cynyddu'r galw a'r prisiau

BYGYTHIADAU



- Twf dai a straen ar seilwaith
- Canfyddiad fod tai newydd yn goresgyn y ffin wledig
- Aros am atebion mawr i draffig y dref a pheidio â chwilio am atebion ymarferol
- Dyfodol y Stryd Fawr – gan cytuno ar ddiben a chyfeiriad
- Teimlad fod yr ysbyty cymunedol yn colli gwelyau ac amrediad helaeth o ofal

BETH DDYWEDSOCH CHI? ADRODDIAD O'R YMGYNGHORIAD

Cafodd y broses ymgynghori ei llunio a'i threfnu i gyflawni nifer o amcanion:

- Sicrhau bod cyfuniad o gyfleoedd wyneb yn wyneb a digidol yn cael eu darparu;
- Darparu amser digonol i bobl gael gwybod, ac ymateb a rhoi sylwadau ar y broses Uwchgynllun Tref;
- Lle bo'n ymarferol, ymdrin â'r ymgynghoriad ar lefel tref gyfan sy'n cynnwys cymdogaethau fel Bulwark a Thornwell, yn ogystal â chanol y dref.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, darparwyd y gweithgareddau ymgynghori canlynol:

1. Rhoddwyd pecyn briffio i Gynghorwyr Sir a Thref a oedd yn ei gwneud yn haws iddynt drefnu cyflwyniadau byr i grwpiau buddiannau a sefydliadau lleol; roedd hyn yn rhoi cyfle i hyrwyddo digwyddiadau yn dyfodol a'r arolwg cymunedol;
2. Rhoddodd y Cyngor Sir dudalen we ar gyfer y prosiect ar ei wefan lle gallai pobl weld a lawrlwytho'r cynigion a hefyd gwblhau'r arolwg ar-lein;
3. Cafodd yr arolwg cymunedol ei ddarparu ar-lein a'i hyrwyddo trwy rwydweithiau lleol, cyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb; roedd copïau papur hefyd ar gael yn swyddfeydd y Cyngor Tref ac yn Llyfrgell Cas-gwent yn ogystal â digwyddiadau wyneb yn wyneb.
4. Cynaliwyd dau ddiwrnod o ymgynghori wyneb yn wyneb- yng nghanol y dref ar 8 Hydref, ac yng nghymuned Bulwark ar 11 Hydref, 2022.

Roedd y lleoliadau yng Nghanolfan Palmer a Chanolfan Gymunedol Bulwark yn hygyrch, canolog ac yn adnabyddus i'r gymuned.

5. Cynaliwyd arddangosfa statig yn Llyfrgell Cas-gwent o 12 Hydref tan 30 Hydref; darparwyd fersiynau papur o'r arolwg, ynghyd â blwch postio ar gyfer copïau a gwblhawyd;
6. Cynhaliwyd sesiwn gweithdy gyda disgyblion Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 yn Ysgol Gyfun Cas-gwent ar 16 Tachwedd 2022



Cynllun Trawsnewid Cas-gwent

10am – 5pm ar ddydd Sadwrn, 8fed Hydref
Y Ganolfan Palmer, Rhan Uchaf Stryd Nelson

10am – 8pm ar ddydd Mawrth, 11eg Hydref
Canolfan Gymunedol Bulwark

Dewch draw i weld y syniadau ar gyfer Cynllun Trawsnewid Cas-gwent

☀ Cwrdd â Chynghorwyr, Swyddogion a'r Tim
☀ Edrych ar y syniadau
☀ Rhannu eich adborth

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch
Mccregeneration@monmouthshire.gov.uk
Neu ffoniwch Sadie Beer ar 07929 726220

BETH DDYWEDSOCH CHI? ADRODDIAD O'R YMGYNGHORIAD

Negeseuon Allweddol o'r Ymgynghoriad

Y Ddau Ddiwrnod o Ymgynghori Wyneb yn Wyneb

- Canol y dref – ei hunaniaeth, cyflwr, gweithgareddau, dibenion cyfamserol, rheoli, thema llesiant, y Dell, hyrwyddo'r Neuadd Ymarfer
- Darpariaeth i bobl ifanc – awyr agored ac o dan do
- Cyfleusterau lleol – lleoedd llesiant, sinema fwy gweladwy, lleoedd i gyfarfod, cydlyniant cymunedol
- Chwarae – gwelliannau i'r lleoedd presennol ac i'r cysylltiadau â hwy
- Symud o gwmpas – llwybrau, e-feiciau a chysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru
- Trafnidiaeth gyhoeddus (Thomas Street), yr amgylchedd, gwybodaeth, gwasanaeth bws hoppa i ganol y dref
- Traffig a thrafnidiaeth – mwy o integreiddio â'r cynnig cyfnewidfa drafndiaeth
- Siopau Bulwark yn flaenoriaeth ynghyd â chyfleusterau lleol: cymdeithasol, cysylltu canolfannau, iechyd a deintyddion a rhwydwaith teithio llesol ledled y gymuned

Canfyddiadau'r Arolwg

- Seilwaith a thwf – cyfleusterau a chynnal a chadw
- Rheoli traffig a gwella trafndiaeth gyhoeddus
- Tai fforddiadwy
- Canol y dref: parcio, tu blaen siopau, adeiladu profiad, digwyddiadau, rôl yr hen fanc ac adeiladau gwag eraill
- Canolbwyntio ar gymdogaethau
- Trafnidiaeth a symudiad
- Mwy ar gyflogaeth a swyddi
- Gwyrddu a bioamrywiaeth
- Cas-gwent gynaliadwy
- Pobl ifanc – eu hanghenion a'r ddarpariaeth sydd ar eu cyfer
- Gweithio mewn partneriaeth

Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau ar y weledigaeth ddraft gyda rhai ychwanegiadau wedi eu hamlygu isod.

GWELEDIGAETH

“Mae Cas-gwent yn lle gwych i bobl leol, busnesau ac ymwelwyr. Mae canol y dref yn lle hygyrch a thrawiadol i fusnesau lleol, y celfyddydau, diwylliant a llecynnau cyhoeddus. Ac mae cymdogaethau'r dref wedi eu cysylltu'n dda, gyda'r amrywiaeth iawn o wasanaethau i gefnogi llesiant y trigolion.”

- Canolbwyntio mwy ar yr agenda wyrdd
- Mae pobl wedi eu rhannu rhwng y gymuned a thwristiaeth
- Angen cefnogi ei hunaniaeth
- Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau traffig
- Angen ystyried ei leoliad a'r berthnas â lleoedd eraill gerllaw'r dref

“Pa un peth fyddai arnoch eisiau i'r cynllun gychwyn ei gyflawni yfory, pe na bai dim cyfyngiadau ar gyllid, cefnogaeth partneriaid nac adnoddau eraill? (mae'r rhif mewn cromfachau yn cynrychioli pa mor aml y cafodd yr eitem ei grybwyll)”

BLAENORIAETHAU

- Gwella'r sefyllfa o ran traffig a thrafnidiaeth (86)
- Gwneud y Stryd Fawr yn fwy o gyrchfan (37)
- Mwy o siopau yng nghanol y dref (14)
- Uwchraddio siopau Bulwark (9)
- Parc Dell (6)
- Parciau a lleoedd chwarae (5)
- Lleoedd parcio yng nghanol y dref (am ddim neu wedi eu gwella) (4)
- Gwella profiad cerddwyr (2)
- Gwelliannau i orsaf fysiau Thomas Street. Argraffiadau cyntaf yn cyfrif. (2)





Sut mae pobl yn blaenoriaethu heriau'r dref


Ffynhonnell: Arolwg Cymunedol; N=293

Sut mae pobl yn blaenoriaethu'r cynigion ar gyfer canol y dref

Ffynhonnell: Arolwg Cymunedol; N=256




PAN GAIFF EI HARGRAFFU, BYDD Y DUDALEN HON YN CAEL
EI GADAEI YN FWRIADOL WAG



Pennod 04
Gweledigaeth,
Themâu a
Phrosiectau

4



Mae Cas-gwent yn lle gwych i bobl leol, busnesau ac ymwelwyr. Mae canol y dref yn lle hygyrch a thrawiadol i fusnesau lleol, y celfyddydau, diwylliant a llecynnau cyhoeddus, gyda thrafnidiaeth a symudiad yn cael ei wella trwy ddarpariaeth integredig ac aml-ddull. Mae cymdogaethau'r dref wedi eu cysylltu'n dda, gyda'r amrywiaeth iawn o wasanaethau i gefnogi llesiant trigolion trwy ganolbwyntio ar atebion gwyrdd.

NOD 1

Datblygu canol tref Cas-gwent fel cyrchfan i'r gymuned leol ac ymwelwyr sydd wedi ei hadeiladu ar ei threftadaeth, ei chymeriad fel tref gaerog a busnesau ac atyniadau llwyddiannus

1. Byddwn yn datblygu hunaniaeth a phrofiad i ganol y dref a gefnogir trwy farchnata lle, cymorth i fusnesau lleol a gweithgarwch ar-stryd.
2. Byddwn yn mynd ati mewn ffordd gydgyssylltiedig i fynd i'r afael â lleoedd ac adeiladau a dan-ddefnyddir a fydd yn addas ar gyfer anghenion defnyddwyr canol y dref ac a fydd yn adeiladu ar brofiad.
3. Byddwn yn rheoli gofod o fewn ardal y Stryd Fawr fel ei fod yn cynnal digwyddiadau, gwyliau, marchnadoedd a mwyr yn fynych, gan adeiladu ar enw da, ansawdd a chroeso.
4. Byddwn yn gwella'r man cyrraedd a'r cysylltiadau rhwng y Castell ac ardal glan yr afon, y Drill Hall, gwelliannau i fwynderau a rhaglen digwyddiadau/gweithgareddau.
5. Byddwn yn datblygu strategaeth parcio sy'n galluogi parcio 'galw heibio' hwylus yn ogystal ag ar gyfer aros yn hirach yng nghanol y dref.
6. Byddwn yn datblygu, creu a rheoli llecynnau gwyrdd o fewn canol y dref ar gyfer treulio amser, chwarae a gweithgareddau eraill.
7. Byddwn yn cefnogi asedau cymunedol sy'n ffurfio rhan o brofiad Cas-gwent ac yn helpu eu hyfywedd hirdymor a'u rôl yn y gymuned.
8. Byddwn yn rheoli sut mae pobl yn cyrraedd yng nghanol y dref a'u helpu nhw i grwydro ac adnabod eu ffordd o gwmpas yn rhwydd.

NOD 2

Datblygu ansawdd ac amrywiaeth seilwaith cymunedol ar draws cymdogaethau Cas-gwent mewn modd sy'n cefnogi llesiant lleol a gwell cyfleoedd bywyd.

1. Byddwn yn gwella ansawdd lleoliad siopau cymdogaeth Bulwark a'i gysylltiadau â'r gymuned trwy gynllun cydgysylltiedig sy'n ymdrin â'r brif ffordd, ffyrntiadau a lleoedd cyfagos, ac yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau a dibenion lleol.
2. Byddwn yn cefnogi sefydliadau cymunedol gydag adeiladau, lleoliadau a lleoedd ar gyfer pobl, trwy eu cyfeirio at gyllid ac yn cysoni hyfforddiant a chymorth sy'n gwella sgiliau a chanlyniadau i bobl.
3. Byddwn yn gwella llecynnau awyr agored a dan-ddefnyddir o fewn y gymuned a fydd yn helpu bioamrywiaeth lleol, gwyrddu llecynnau cyhoeddus, addysg a chyfleoedd tyfu cymunedol.
4. Byddwn yn creu cymdogaethau y gellir eu cerdded a fydd yn sicrhau mynediad at amwynderau a gwasanaethau, ar droed ac ar feic, sydd hefyd yn cysylltu â chanol y dref trwy'r rhwydwaith teithio llesol ehangach ac amrywiol lwybrau troed pellter hir.

Cymuned a phobl

Cymdogaethau
cysylltiedigCydgyssylltu
TrafnidiaethEdrych tuag allan
a chysylltu â'r ardal
ehangachGweithgareddau'n
ymwneud ag
addasu at ddibenion
gwahanol

Rheoli seilwaith

THEMÂU'R LLE

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn dangos cyfeiriad i Gas-gwent yn y dyfodol ac yn gosod y sylfeini ar gyfer ffyniant a llesiant yn y dyfodol. Mae'r themâu a flaenoriaethir yn ymateb i heriau a chyfleoedd allweddol Cas-gwent a ganfuwyd o'n ymchwil a'u cymeradwyo gan y gymuned leol ac wrth ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd gwireddu'r Weledigaeth a'r Canlyniadau Strategol i Gas-gwent yn cael ei gyflawni trwy weithredu'n lleol dros newid. Blaenoriaethir pedair thema drawsbynciol ar gyfer ymyrraeth, sy'n cefnogi'r pedair cymdogaeth ac ardal amlwg o'r dref. Mae pob thema blaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu'r brif her o newid hinsawdd, gan gynnig ymateb integredig i wireddu canlyniad cynaliadwy hirdymor i Gas-gwent.

SYMUD O GWMPAS Y DREF



- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Teithio llesol
- Lle i gerddwyr

Yr angen i ddatblygu atebion yn y tymor byr a'r tymor canolig sy'n mynd i'r afael â thraffig y dref trwy drafnidiaeth gyhoeddus mwy integredig ac effeithlon, ac felly'n cynnig dewis amgen o ansawdd yn lle'r car. Mae angen datblygu seilwaith bysiau o ansawdd uchel ar draws y dref gyda chyfnewidfa bws a rheilffordd yn yr orsaf drenau i apelio at bobl sy'n gweithio ym Mryste a Chaerdydd ac ymhell i ffwrdd. Mae cymdogaethau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r dull pellter cerdded 15 munud sy'n cysylltu lleoedd gwaith, addysg, hamdden, siopa a llecynnau gwyrdd â'i trigolion. Mae angen rhoi mwy o le i gerddwyr lle bo'n ymarferol, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael blaenoriaeth dros gerbydau modur. Dylai'r thema hon gysylltu â seilwaith gwyrdd.

CYMUNED A PHOBL



- Adeiladau cymunedol
- Darpariaeth chwarae
- Llenwi bylchau yn y ddarpariaeth
- Cyfleoedd sgiliau a hyfforddi

Mae ar gymuned angen yr amrywiaeth iawn o gyfleusterau ac amwynderau i ffynnu, yn economaidd a chymdeithasol. Mae gweithredu'r dull pellter cerdded 5 a 15 munud yn ffordd o archwilio asessau cymdogaeth. Ar lefel leol, mae angen darpariaeth sylfaenol o fannau cyfarfod, lleoedd chwarae, mynediad at siop hwylus ac amgylchedd sy'n ddiogel, deniadol a chysylltiedig. Dylai buddsoddiad newydd feddwl yn gyfannol yn nhermau cymuned glyfar a busnesau lleol sy'n agor llwybrau at gyflogaeth i'r rheini sy'n anweithgar yn ogystal â defnyddio tir ac adeiladau diffaith i ddibenion llesiant.

LLECYNNAU AGORED, NATURIOL, YR AMGYLCHEDD A LLESIANT



- Llecynnau llesiant
- Llwybrau
- Bioamrywiaeth ac allgymorth cymunedol

Mae manteision strategol a lleol i leoliad Cas-gwent wrth iddo edrych tua Dyffryn Gwy a Glannau Hafren gyda llwybrau a ffyrdd beiciau sy'n dod â buddion economaidd i'r dref. Mae'r angen i sicrhau bod seilwaith gwyrdd yn cael ei ddiogelu a'i wella yn allweddol i ansawdd bywyd y trigolion ac i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'n bwysig sicrhau llecynnau gwyrdd ac agored, ardaloedd natur a bioamrywiaeth lleol sy'n ategu teithio llesol, a lleoedd ar gyfer chwarae a bywyd cymunedol.

CYRCHFAN A PHROFIAD



- Canolfannau cymdogaeth
- Profiad o ganol y dref
- Lleoedd Mentergarwch

Mae angen i ganol tref Cas-gwent ddatblygu hunaniaeth sy'n parchu'r gorffennol ond yn cydnabod yr angen am newid, gan apelio at drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae angen iddo feithrin twf gwyrdd busnesau a chreu'r profiad iawn i'r dref gael ei hadnabod am siopau arbenigol, amrywiaeth o dai bwyta, marchnadoedd, digwyddiadau gydol y flwyddyn. Gall ei Gastell, Amgueddfa, Eglwys Normanaidd a Glan yr Afon ffurfio cylchdaith gydlynus o weithgarwch. Dylid galluogi lle sy'n cefnogi cyfuniad o weithio o bell, lleoedd cyfarfod a busnesau ategol eraill. Mae ar ganolfannau lleol fel Bulwark angen buddsoddiad sy'n annog dwysedd pobl i dreulio amser yno a gweithgarwch cymdeithasol.

EGWYDDORION (COD) CREU LLEOEDD

Cylch cerdded 5 munud

- Lle amwynderau – cilfach, lle i eistedd, mynd â'r ci am dro, cael picnic
- Adeilad cymunedol neu lecyn cymdeithasol i gyfarfod, sgwrsio, dysgu
- Siop neu fusnes cyfleustra lleol
- Llwybrau hygyrch, diogel a braf

Cylch cerdded 15 munud

- Clinigau gofal iechyd a fferyllfeydd
- Ysgolion cynradd a meithrinfeydd
- Llecynnau gwyrdd a pharciau
- Gwasanaethau brys
- Swyddfeydd neu ganolfannau llywodraeth leol
- Siopau groser a siopau hanfodol eraill
- Bwyd a diod
- Cyfleusterau hamdden

Cymdogaethau 5 munud

Er bod y strategaeth creu lleoedd yn ymwneud ag edrych ar ffyrdd o wella tref gyfan Cas-gwent, mae ei chymuned wedi ei ffurfio o gymdogaethau gwahanol a gaiff eu diffinio gan y ffurf ffisegol a chanolfannau. Dyma lle mae pobl yn tueddu i ddod at ei gilydd i gyfarfod, siopa, gweithio, chwarae, mynd i'r ysgol, ymysg gweithgareddau eraill.

Dylai cymdogaethau fod yn gryno, yn groesawgar i gerddwyr, ac yn addas ar gyfer defnydd cymyg, gyda llawer o weithgareddau bywyd bob dydd o fewn pellter cerdded.

Wrth ganfod ffyrdd o drefnu lle, mae'r cylchoedd cerdded hyn ar bellter y gallir ei groesi mewn pum munud o gerdded ar gyflymder arferol – caiff ei ddangos yn aml ar fap fel cylch ac iddi radiws o chwarter milltir, sy'n 400 metr.

Trwy weithredu hyn yng Nghas-gwent, gallwn osod nifer o gylchoedd cerdded 5 munud sy'n ymestyn allan o bwynt canolog megis rhes o siopau, cylchfan allweddol neu gyffordd neu ffyrdd, gwasanaeth cymunedol allweddol neu ganolfanwynt canol tref.

Er ein bod yn cydnabod nad yw pobl yn cerdded mewn llinell syth na "fel yr hed y frân" mae'n rhoi teimlad cyffredinol o'r lle y gall pobl ei gyrraedd o fewn 5 munud.

Gallai'r uned cymdogaeth gael nifer o asedau a gweithgareddau sydd o fewn cyrraedd i drigolion.

Gall y cylchoedd cerdded 5 munud hyn gyfochri â chymdogaethau cyfagos, gyda chyfres o gylchoedd yn creu eich cylch cerdded 15 munud. Mae i'r ardal fwy y nod o ble bynnag rydych chi'n byw y dylai pawb o'r trigolion allu mynd i'r ysgol, mwynhau gweithgareddau hamdden, gweithio a siopa o fewn pellter cerdded neu feicio i'w cartrefi – a mwynhau gwell ansawdd bywyd o ganlyniad.

Fe wnaeth Carlos Morena, cynllunydd trefol ac athro ym Mhrifysgol y Sorbonne yn Paris, ailddyfeisio a damcaniaethu cysyniad 'La ville du quart d'heure' gyda chwe swyddogaeth gymdeithasol a threfol yn graidd iddo: byw, gweithio, siopa groser, addysg, gofal iechyd a hunan-ddatblygiad.

Prif nodau tref neu le y gallir ei gerdded mewn 15 munud yw:

1. Lleihau'r defnydd o geir a theithiau hir diangen
2. Gwellu hygyrchedd gwasanaethau ac amwynderau allweddol i bobl o bob cefndir
3. Creu a thyfu lleoedd a pharciau cymdeithasol i bobl ar draws cymunedau
4. Gwellu iechyd a llesiant personol ledled rhanbarthau cyfan
5. Creu mwy o amser i weithgareddau, megis cysylltu â ffrindiau a theuluoedd
6. Rhoi hyblygrwydd o ran sut mae pobl yn byw – ee gweithio hyblyg neu heibrid
7. Hyrwyddo dwysedd er mwyn gwneud amwynderau a gwasanaethau lleol yn fwy hunan-gynhaliol
8. Gwellu cysylltedd ar sail llwybrau beicio a'r gallu i gerdded
9. Lleihau traffig trwodd a'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â hyn
10. Galluogi ffordd fwy cynaliadwy inni fyw a symud o gwmpas.

Mae angen i'r cynllun creu lleoedd hwn felly fabwysiadu egwyddorion ynghylch y canlynol:

- Datblygu coridorau a strydoedd ar gyfer 'lleoedd pobl'
- Cefnogi cynlluniau cymdogaethau y gallir byw ynddynt

- Helpu darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer cymuned 15 munud
- Ymgymryd ag adfywio trwy ddarparu mwy o gyfleusterau hamdden, cymunedol a siopa lleol
- Y cynllun hwn i ddeall pryderon a gweledigaethau'r cyhoedd a rhanddeiliaid am eu hardal, sy'n hyrwyddo beicio, cerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.





Figur 24 – cylchoedd cerdded 5 a 15 munud, Casgwent

Addasu lle at ddiben arall

Mae Cas-gwent yn dref mewn cyfnod o newid gydag angen i ailddarganfod ei hun wrth iddi ddod allan o'r pandemig Covid-19. Cyn y pandemig, roedd ei lleoliad yn peri heriau i'w heconomi leol a chanol y dref, yn sgil ei lleoliad ar y ffin, patrymau teithio a'i nodweddion ffisegol.

Gan barchu ei threftadaeth, mae angen iddi ganfod ffyrdd o addas asedau adeiledig a llecynnau agored at ddibenion eraill mewn ffordd sy'n helpu pontio ac ailddychmygu. Mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, ychwanegu gwerth at ganolfannau cymunedol er mwyn cynnal eu hyfywedd, datblygu lleoedd gwaith sy'n addas ar gyfer gweithio hyblyg ac o bell, gwasanaethau iechyd a llesiant a ffyrdd o sianelu syniadau lleol, cynhyrchwyr ac entrepreneuriaid trwy ei Stryd Fawr.

Gweithgareddau pobl

Mae gan Gas-gwent gymuned o anghenion cymysg gyda phocedi o amddifadedd yn Thornwell a Bulwark sydd wedi cael eu dangos yn ein dadansoddiad o ystadegau'r ardaloedd lleol. Mae incwm, cyrhaeddiad addysgol ac ansawdd bywyd cyffredinol yn tueddu i fod yn llai na chyfartaledd Cymru gydag angen am fuddsoddiad seiliedig ar le er mwyn canfod ffyrdd o wella cyfleoedd a symudedd a rhagolygon pobl. Gallai hyn ymwneud ag asedau segur neu rai a dan-ddefnyddir y gallir eu haddasu ar gyfer gweithgareddau fel tyfu cymunedol, siediau dynion, gweithgarwch clybiau swydi a hyfforddiant. Gall hefyd fod ynghylch manteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol buddsoddiadau trwy gaffael, prosiectau adeiladu gyda phrentisiaethau, lleoliadau gwaith a chymorth arall.

Edrych tuag allan – cysylltu

Mae angen i'r dref edrych tuag allan a chysylltu â'i hasedau naturiol ac amgylcheddol yn ogystal â chyrchfannau ymwelwyr eraill. Mae angen cynnal a datblygu ei safle strategol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Clawdd Offa, Taith Gerdded Dyffryn Gwy, y Gloucestershire Way a llwybrau eraill lleol/sirol fel bod teithiau cerdded diwrnod a gwyliau arosiadau byr yn dod â gweithgarwch a gwariant i'r economi leol, gan symblu busnesau a chyfleoedd newydd.

Mae angen i gyrchfannau fel Cae Rasio Cas-gwent, Abaty Tyndyrn, Llwybr Cerfluniau Fforest y Ddena a thwnel Tidenham a agorwyd yn ddiweddar sy'n eich cysylltu â Dyffryn Gwy, ffurfio rhan o'r hyn sy'n denu ymwelwyr i'r dref a'r ardal. Mae hefyd yn edrych tua'r de at ardal Gwastadeddau Byw Glannau Hafren gyda golygfeydd allan i Foryd Hafren a threftadaeth leol gan gynnwys Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed.

Caiff Cas-gwent fel canolfan ar gyfer diwrnod allan, neu benwythnos neu wythnos i ffwrdd, ei hyrwyddo trwy Croeso Sir Fynwy a Visit Forest of Dean. Mae angen i'r dref sicrhau bod ganddi'r ansawdd a'r amrywiaeth iawn o seilwaith a fydd yn denu pobl i ymweild o ran llety, bwyd a diod, siopau a gwasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus.




PROSIECTAU Â BLAENORIAETH

Trefn	Cam Gweithredu	THEMÂU			
		Symud o Gwmpas	Cymuned a Phobl	Amgylchedd, Llecynnau, Llesiant	Cyrchfan a Mentergarwch
PRIF BROSIECTAU'R CYNLLUN CREU LLEOEDD					
01	Y Stryd Fawr – Ymgyrch Eiddo Gwag, ar lefel stryd ac adeiladau mwy, defnydd cyfamserol a dros dro etc.				✓
02	Y Stryd Fawr – Grantiau gwella adeiladau – y Stryd Fawr a Moor Street				✓
03	Darpariaeth chwarae a dôl blodau gwyllt The Dell	✓	✓	✓	✓
04	Cyfnewidfa Bysiau-Rheilffordd – cysylltiadau rhanbarthol-cenedlaethol; safleoedd bysiau yng nghanol y dref	✓			
05	Trafnidiaeth seiliedig ar alw (DRT) – Cynllun Fflecsi	✓			
06	Y Drill Hall		✓		✓
07	Cyswllt Teithio Llesol Garden City a Llwybr Arfordir Cymru	✓			✓
08	Astudiaeth ddichonoldeb o leoedd gwaith ar y Stryd Fawr				✓
09	Ysgol Gynradd Thornwell – prosiect tyfu cymunedol	✓	✓	✓	
10	Cysylltiadau Teithio Llesol Bulwark a Chysylltiadau WCP	✓			✓

PROSIECTAU EILAIDD

PROSIECTAU EILAIDD		THEMÂU			
Trefn	Cam Gweithredu	Symud o Gwmpas	Cymuned a Phobl	Amgylchedd, Llecynnau, Llesiant	Cyrchfan a Mentergarwch
PROSIECTAU EILAIDD Y CYNLLUN CREU LLEOEDD					
11	Gwelliannau amgylcheddol i siopau Cymdogaeth Bulwark (gwasanaethau cymunedol a sylfaenol a siopau)	✓			✓
12	Cynllun Natur Lleol a Chwarae – amrywiol safleoedd	✓	✓	✓	
13	Kingsmark a The Danes – Cysylltiadau Teithio Llesol a Llecyn Natur Cymunedol – Cysylltedd – safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓			✓
14	Adeiladau Cymunedol Bulwark – asedau – arwyddion, cysylltedd a gwelliannau, cydgysylltu a chyfnewid gwybodaeth	✓	✓		
15	Cyswllt rhan uchaf Stryd yr Eglwys a Stryd y Bont	✓			✓
16	Gorsaf Fysiau Thomas Street a Moor Street (grantiau adeiladu, gwastraff masnachol, rheoli traffig, system gylchu o gwmpas Thomas Street	✓			✓
17	Lle Chwarae a Gardd Synhwyrdd	✓	✓		
18	Cysylltiadau Castell Cas-gwent/Canolfan Groeso/yr Amgueddfa	✓			✓
19	Cynllun Rhannu Beiciau	✓			
20	Gwasanaethau bws lleol canol y dref	✓			
21	Y Stryd Fawr – mynediad a lleoedd – cysylltiadau ar draws y dref – llyfrgell i'r A48	✓			✓
22	Welsh Street – Campysau Addysg a Hamdden a Llwybr Dyffryn Gwy	✓	✓	✓	
23	Glan yr Afon – cyswllt, tir y cyhoedd a thoiledau cyhoeddus	✓	✓	✓	
24	Eglwys Priordy'r Santes Fair		✓		✓
25	Rheoli Lle – glanhau, strydoedd, toiledau, balchder dinesig				
26	Cyflwyno'r cynllun Trefi Smart fesul tipyn				
27	Digwyddiadau a Gweithgareddau – marchnata a hyrwyddo, datblygu digwyddiadau, cydgysylltu a chysylltiadau â phrosiectau ffisegol				
28	Llecynnau Gwyrdd – Y Warin a Choed Clychau'r Gog				

Prif Brosiectau'r Cynllun Creu Lleoedd





Y STRYD FAWR – ADEILADAU ALL- WEDDOL A DAN- DDEFNYDDIR



Ailddefnyddio adeiladau allweddol sy'n bywiogi'r lle a'r profiad o'r dref



Arbrofi gyda mathau o ddefnydd a gweithgareddau cyn penderfynu ar unrhyw atebion parhaol



Gweithio gyda thir y cyhoedd i gyhoeddi / ategu gweithgareddau stryd

Dibyniaethau

Cydweithio â pherchnogion adeiladau
Penodi swyddog prosiectau cyfamserol
Galw gan fusnesau newydd sy'n cychwyn

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Tref Cas-gwent

Cyllid

Asiantau eiddo lleol
Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru
Cyngor Tref Cas-gwent
Cymorth Busnes Cymru



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL- WEDDOL

- Targeddu ac addasu at ddibenion eraill adeiladau allweddol sy'n wag neu a danddefnyddir ar y Stryd Fawr
- Datblygu ymgyrch gyfamserol sy'n ategu'r cynnig presennol ac yn adeiladu ar hunaniaeth a brand sydd wrthi'n cael ei ddatblygu
- Cydgysylltu ffryntiadau a'r lleoedd cyfagos iddynt er mwyn creu'r atyniad a'r profiad iawn

DISGRIFIAD O'R PROS- IECT

Mae hen adeilad Herbert Lewis wedi bod yn wag ers amser sylweddol ac mae'n arwydd clir o ffordd mae'r gwynt yn chwythu o ran perfformiad Stryd Fawr Cas-gwent. Mae hen adeilad Banc Barclays hefyd yn adeilad gwag amlwg a chanolog yn y dref. Mae'r ddau eiddo mewn perchnogaeth breifat. Er bod adeilad Herbert Lewis yn addas ar gyfer ei drosi'n fflatiau preswyl ar y lloriau uchaf, mae Banc Barclays yn fwy o her o ran lleoliad a phreifatrwydd.

I helpu'r perchnogion i symbylu meddiannaeth fwy parhaol byddem yn cynnig prosiect cyfamserol / dros dro sy'n pontio'r ddau adeilad hyn. Byddai ar hyn angen fel adnoddau swyddog neu gydgyssylltydd prosiectau sy'n hwyluso trafodaethau gyda'r perchennog ar delerau trwydded/les, yswiriantau a rhwymedigaethau perthnasol a chytundeb ar y mathau o ddefnydd ac unrhyw osodiadau a ffitiadau, ac yn olaf unrhyw gytundeb rhent. Byddai'r telerau am gyfnod penodol, yn destun adolygiad a meddianwyr a fyddai â diddordeb.

Yn Herbert Lewis gallai hyn ganolbwyntio ar brofiad bwyd a diod dros dro gyda chynhyrchwyr,

digwyddiadau blasu, sgysiau, arddangosiadau a hyd yn oed glwb swper i fusnesau sy'n cychwyn er mwyn profi'r galw.

Yn hen adeilad Banc Barclays, gall cynllun ac is-raniadau mewnol yr adeilad gyfyngu ar ddibenion dros dro, ond gallai gynnwys oriel gelf, sinema dan do neu awyr agored a gweithgareddau diwylliannol eraill. Byddai brand a chynllun yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r prosiect a hyrwyddo'r gweithgareddau i'r gymuned leol.







GRANTIAU GWELLA ADEILADAU'R STRYD FAWR



Ailddefnyddio'r stoc adeiladau
presennol



Gweithredu cod dylunio unedig



Creu lle hyblyg



Sicrhau profiad amrywiol o ganol y
dref

Dibyniaethau

Mae'r prosiect hwn yn ddibynol ar ddid-
dordeb gan berchnogion a landlordiaid
adeiladau perthnasol, yn benodol gyda'r
broses grantiau a'u cyfraniad

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy fel awdurdod prifffyrdd
Llywodraeth Cymru
Landlordiaid perthnasol

Cyllid

Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth
Cymru
Cyngor Sir Fynwy
Cyfraniadau gan y sector preifat



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALLWEDDOL

- Mynd i'r afael ag adeiladau lleol sy'n wag neu wedi eu tanddefnyddio ers amser maith
- Addasu adeiladau at ddibenion a gweithgareddau eraill
- Cyflwyno byw yng nghanol y dref
- Gwelliannau i'r strydlun a gwead ffisegol
- Mabwysiadu dull cod dylunio

DISGRIFIAD O'R PROSIECT

Mae Cyngor Sir Fynwy hanes blaenorol o lwyddiant cryf wrth weithredu prosiectau grant i ddod â gwelliannau i olwg adeiladau canol y dref a'r defnydd a wneir ohonynt.

Mae hyn wedi gynnwys Targed Buddsoddiad mewn Adfywio a phrosiectau amlennu blaenau siopau a gyllidir gan raglan Trawsnewid Trefi, cynlluniau defnydd dros dro, ac ymyraethau i ddod ag adeiladau gwag neu rai a danddefnyddir yn ôl i ddefnydd. Mae'r problemau y bwriedir i'r mathau hyn o grantiau fynd i'r afael â hwy – unedau siopau gwag neu a danddefnyddir, ac adeiladau y mae eu cyflwr yn effeithio'n negyddol ar lwyddiant y busnes sy'n eu meddiannu yn ogystal ag yn ehangach ar olwg a theimlad canol y dref – yn dal i fod yn bryderon sylweddol yng nghanol tref Cas-gwent.

Y cynnig craidd ar gyfer rhan Grantiau Adeiladu y rhaglen yw sefydlu pot hyblyg o gyllid grant i gyflawni gwelliannu i adeiladau canol y dref yng Nghas-gwent.

Bydd hyn yn caniatáu ymyraethau o dan tair o themâu'r Cynllun Creu Lleoedd – Grantiau Gwella Eiddo Masnachol, Defnydd yn y Cyfamser yng Nghanol y Dref, a Chynlluniau Amlennu Ffryntiadau Siopau – gan adlewyrchu'n profiad o amrywiaeth anghenion a chyd-destun y prosiectau rydym wedi eu cefnogi'n hanesyddol, ac o botensial prosiectau rydym wedi eu dewis. Bydd y dull hyblyg hwn yn caniatáu inni deilwra'r grantiau yn y ffordd fwyaf effeithiol i ymateb i amgylchiadau lleol ym mhob tref ac i gyfleoedd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar y cychwyn ar ddatblygu a dylunio cychwynol prosiectau Grantiau Adeiladau posibl yng Nghas-gwent, gyda gwaith ar adeiladau'n annhebygol o gychwyn tan yn

hwyr yn 2023/24.

Yn ogystal â'r pot cyllid grand hyblyg hwn, mae prosiect penodol i wneud gwelliannau i Hanbury House yng Nghas-gwent hefyd wedi cael ei gynnwys yma. Cafodd y prosiect ei ddatblygu'n wreiddiol i'w gynnwys yn rhaglen Grantiau Creu Lleoedd Sir Fynwy ar gyfer 2021/22, ond nid oedd yn bosibl symud ymlaen ag ef bryd hynny

Yr hyn i'w osgoi



Cod dylunio cydlynol





DARPARIAETH
CHWARAE A DÔL
BLODAU GWYLLT Y
DELL



Bywiogi llwybr y Dell a Thaith Gerdded
Dyffryn Gwy



Darpariaeth chwarae sy'n hygyrch i bawb



Darparu seilwaith gwyrdd a natur lleol

Dibyniaethau

Caniatâd cynllunio

Sefydliad(au)
Arweiniol

Caniatâd heneb restredig
Cyfeillion Parc Dell Cas-gwent (FDPC)

Cyllid

Cyllid Lleodedd Lleol ar gyfer Natur

Cyngor Tref Gas-gwent

Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL-
WEDDOL

- Gwella'r ddarpariaeth chwarae bresennol
- Dehongli mur y dref
- Gwell mynediad i ran isaf y Dell
- Cyflwyno gwell bioamrywiaeth a chyfleoedd peillio
- Gweithgarwch ar Daith Gerdded Dyffryn Gwy a llwybr allweddol yn y dref

DISGRIFIAD O'R PROS- IECT



Mae Castle Dell ym mherchnogaeth preifat teulu Denny (Syr Charles Denny a'i frawd) ac mae wedi cael ei lesio i'r cyngor gan y teulu ers 1946. Adnewyddwyd y les ddiwethaf yn 2017 ac mae'r perchnogion wedi cymeradwyo'r gwelliannau arfaethedig i'r lle chwarae ynddo.

Mae lle chwarae yn Castle Dell Casnewydd wedi bod yno ers llawer blwyddyn ac er bod yr offer yn cael ei gynnal i'r safonau perthnasol gan y Cyngor, mae'n hen-ffasiwn, yn gyfyngedig o ran gwerth chwarae ac nid yw'n gyfan gwbl gynhwysol. Mae'r safle'n agos i ganol y dref, gerllaw maes parcio Bank Street, sy'n rhoi mynediad da i'r lle chwarae a'r llecyn agored ehangach. Mae'r tir yn Castle Dell mewn perchnogaeth preifat ac mae ar les hirdymor i'r cyngor sir.

Cafodd Cyfeillion Parc Dell Cas-gwent (FDPC) ei sefydlu ychydig flynyddoedd yn ôl gan grwp o rieni a oedd â diddordeb mewn gwella'r lle chwarae ac maent wedi bod yn gweithio dros y tair blynedd ddiwethaf gyda phensaer tirwedd i ailddylunio'r safle.

Pan gyflawnodd y Cyngor asesiad annibynnol o'i 110 o leoedd chwarae yn 2019, cafodd Castle

Dell ei raddio fel lle gwael o safbwynt gwerth chwarae, gyda gradd PV o 18 allan o sgôr bosibl o 84. Mae Cyfeillion y Parc wedi gwneud cryn dipyn o ymgynghori lleol ynghylch y parc a'i ailddatblygiad arfaethedig, ac mae eu syniadau a'u cynigion yn gyson iawn â dull diwygiedig y Cyngor o ymdrin â darpariaeth lleoedd chwarae sefydlog, a gytunwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn golygu symud wrth oddi offer tiwbiau dur tuag at ddefnyddio deunyddiau mwy naturiol fel coed caled cynaliadwy, gyda chyfran sylweddol o offer cynhwysol i blant sydd ag anableddau ac anghenion cymorth eraill. Mae Cyfeillion Parc Dell Cas-gwent yn paratoi ar gyfer ceisiadau cynllunio a henebion rhestredig ac ar y cais loteri ar gyfer prosiect y lle chwarae. Mae Cyngor Sir Fynwy eisoes wedi ymrwymo cyllid cyfatebol cyfalafol. Pan fydd prosiect y lle chwarae wedi ei gwblhau, y gobaith yw y bydd CADW wedyn yn gosod placiau dehongli ar fur y dref ac y bydd hefyd yn gwneud rhywfaint o waith i gael gwared ar llystyfiant nad oes ei eisiau o'r waliau.





CYFNEWIDFA BYSIAU- RHEILFFORDD



Cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol



Gwell cyfleusterau bysiau sy'n cefnogi gweithgarwch canol y dref



Defnyddio a gwella'r seilwaith sy'n bod eisoes



Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig integreiddio gwasanaethau bws a rheilffordd

Dibyniaethau

Byddai angen i'r Cyngor Sir symud ymlaen â'r cynllun manwl ar gyfer yr opsiwn hwn unwaith y bydd cyllid ar gael

Sefydliad(au) Arweiniol

Llywodraeth Cymru (Trafnidiaeth Cymru)

Cyngor Sir Fynwy

Cyllid

Cyngor Sir Fynwy

Llywodraeth Cymru (Trafnidiaeth Cymru)

Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig (yn amodol ar benderfyniad ym mis Ionawr 2023)



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALLWEDDOL

- Defnyddio blaengwrt yr orsaf reilffordd ar gyfer lle i droi bysiau
- Dau gilfach bysiau y gellir eu defnyddio'n annibynnol ar Ffordd yr Orsaf yn union i'r de o faes parcio gorsaf Cyngor Sir Fynwy
- Mae'n cynnig cyfleoedd sylweddol i integreiddio bysiau a rheilffordd
- Mae'n cynnig cyfleoedd i wefru ceir trydan a chyfleusterau digonol i barcio beiciau o fewn y maes parcio presennol
- Byddai'r cynnig yn cynnwys gwelliannau i dir y cyhoedd a mynedfa newydd i gerddwyr tuag at gornel de-ddwyreiniol y maes parcio
- Byddai'r opsiwn yn gofyn am adleoli'r fynedfa i gerbydau i'r maes parcio ond ni fyddai'r nesaf pet hi ddim effaith ar gyfanswm y nifer o leoedd parcio.

DISGRIFIAD O'R PROSIECT

Mae gan y gwelliannau hyn a ffeirir i'r gyfnewidfa drafnidiaeth y potensial i gynnig manteision sylweddol o ran integreiddio bysiau a rheilffordd, wrth ddefnyddio blaengwrt yr orsaf reilffordd fell lle i droi bysiau, gyda dau gilfach yn gyfochrog â'r fynedfa bresennol i'r maes parcio a lle addas i fysiau symud yn y gêr blaen. Yn ogystal, byddai'r opsiwn yn cynni lleoedd i barcio beiciau, gwefru cerbydau trydan a gwella'r amgylchedd i gerddwyr trwy welliannau i dir y cyhoedd. Mae'r holl dir sydd ei angen mewn perchnogaeth gyhoeddus. Prif egwyddorion cynllunio'r cynnig o gyfnewidfa drafnidiaeth yw:

- Ceisio hynny ag sy'n bosibl o integreiddio rhwng dulliau trafndiaeth gynaliadwy
- Trefniant gyrru i mewn, gyrru allan yn cael ei ffafrio
- Sicrhau bod y cynllun yn addas i'r diben
- Lleihau'r rhyngweithio rhwng symudiadau bysiau a cherbydau preifat
- Cynnal/gwella mynediad i gerddwyr
- Gwella/cynyddu cyfleusterau parcio beiciau
- Darparu ar gyfer lefelau addas o wefru cerbydau trydan

- Cadw lleoedd parcio a'r safle taccis

Mae cyflawni Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cas-gwent yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar nifer o leoedd parcio ceir yn yr orsaf ac o'i chwmpas. Mae'r llif gwaith Parcio a Theithio i Gynllun Trafnidiaeth Cas-gwent yn nodi strategaeth barcio ceir a argymhellir ar y cyd â'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth er mwyn sicrhau hynny â phosib o effaith ac o ddefnydd ar drafnidiaeth gynaliadwy yng Nghas-gwent.



Yr orsaf fel y mae ar hyn o bryd.

CYFNEWIDFA DRAFNIDIAETH CAS- GWENT



CYNLLUN YR ORSAF FYSIAU
ARFAETHEDIG



TRAFNIDIAETH SEILIEDIG AR ALW



Cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol



Rheoli newid hinsawdd trwy drafnidiaeth gynaliadwy



Gwella mynediad at gyfleusterau lleol drwy'r dydd a gyda'r nos

Dibyniaethau

Byddai gwasanaeth Fflecsi yn debygol o fod â chostau uwch os caiff ei weithredu yn unol â'r bwriad gyda cherbydau newydd ac oriau gweithredu sylweddol hirach. Y farn yw y bydd potensial yn fwy hirdymor i'r rhain gael ei gwrthbwyso gan gostau rhedeg is y filltir a rhagor o deithwyr yn cael eu denu i'r gwasanaeth a all gynnig teithiau hyblygu a gwasanaethau a fydd yn addas i ofynion teithio nifer uwch o deithwyr. Bydd angen ystyried y costau hyn a'r ffordd y bydd yn gweithredu yn y dyfodol.

Sefydliad(au) Arweiniol

Llywodraeth Cymru (Cynllun peilot Trafnidiaeth Cymru)

Cyngor Sir Fynwy

Cyllid

Cymorthdal Cyngor Sir Fynwy i wasanaethau C1, C2, C3 a 761



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALLWEDDOL

- Gellir defnyddio cerbydau mewn modd hyblyg ee i weithredu gwasanaethau Fflecsi y rhan fwyaf o'r diwrnod ond i wasanaethu fel gwasanaethau amserlen bws ar adegau penodol ee gwasanaeth ysgol neu pan mae galw uchel ar gyfnodau brig.
- Mae Fflecsi yn gweithredu fel arfer gyda cherbydau llai sy'n seiliedig ar fysiau mini gwaelod hir sy'n gwbl hygyrch ond a all gyrraedd mwy o leoedd nag a fyddai'n bosibl gyda cherbydau bws mwy.
- Gellir trefnu amserau a lleoliadau penodol i gerbydau ee galw bob amser yn yr orsaf drenau pan fo trenau'n gadael neu gyrraedd.
- Gall gwasanaethau weithredu o ddrws i ddrws bron, gan eu gwneud yn fwy deniadol i bobl sydd â phroblemau symudedd.
- Gall ap ffôn clyfar helpu denu defnyddwyr iau, mae canolfan alw yn cynnig dewis arall i'r rheini y byddai'n well ganddynt ddull arall o archebu.
- Y farn oedd bod gan drafnidiaeth seiliedig ar alw botensial da i ymestyn dros yr ardal a wasanaethir gan y gwasanaethau 'C' (a bylchau oddi mewn iddynt) sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng Nghas-gwent ac yn ymestyn i Beachley, Sedbury a Tutshill sy'n rhannau gweithredol o'r ardal drefol.

DISGRIFIAD O'R PROSIECT

- Mae'r Comisiwn Trafnidiaeth Integredig yn diffinio Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw (DRT) fel unrhyw fath o drafnidiaeth lle caiff darpariaeth gwasanaethau o ddydd i ddydd ei dylanwadu gan alw'r defnyddiwr (Comsiwn Trafnidiaeth Integredig, 2008). Mae gwasanaethau bws seiliedig ar alw felly yn rhywbeth rhwng bysiau a thacsis ac maent yn gweithredu fel arfer â cherbydau llai a heb amserlen a lleoedd stopio penodol lle gall y teithiau a'r amserau addasu i ddiwallu gofynion defnyddwyr.
- I gefnogi'r rhwydwaith bysiau amserlen mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn cefnogi gwasanaeth bws hyblyg ymatebol 'Grass Routes' sy'n gweithredu gyda bysiau hygyrch, llai sy'n gwneud teithiau ar gais o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 a 16:30. Yn hytrach na gwasanaethau amserlen arferol mae'r 'Grass Routes' yn gallu codi a gollwng teithwyr o fewn ardal eu gwasanaeth, gan newid eu teithiau'n ddyddiol ar sail ceisiadau

gan deithwyr.

- Ers 2020, mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn treialu gwasanaethau trafndiaeth seiliedig ar alw gan ddefnyddio'r brand 'Fflecsi'. Fel y Grass Routes, mae gwasanaethau Fflecsi yn ymateb i alwadau teithwyr a byddant yn codi a gollwng teithwyr ar leoliad o'u dewis o fewn ardal wasanaeth.
- Caiff gwasanaethau Fflecsi eu rheoli'n ganolog, ac mae trefnu'r teithiau'n digwydd yn awtomatig i raddau helaeth gan ddefnyddio Via fel cyflenwr trydydd parti. Gall teithwyr wneud cais i deithio o fewn ardal y gwasanaeth naill trwy ddefnyddio ap ffôn clyfar neu drwy ffonio canolfan alw Fflecsi. Gan ddibynnu ar amodau sy'n amrywio o ardal i ardal gall cais i deithio fod yn dymor byr (ar unwaith hyd yn oed) neu ar gyfer amser/dyddiad yn y dyfodol.
- Mae ein profiad hyd yma'n dangos fod Fflecsi yn fwyaf addas i ardal wasanaeth lai lle mae tripiâu yn fyr gan alluogi cysylltiadau rhwng mwy o bobl, eu cymuned leol a'r rhwydwaith trafndiaeth rhanbarthol. Argymhellir felly y byddai Fflecsi yn gweithredu dros ardal wasanaeth sy'n cynnwys Cas-gwent a phenrhyn Beachley. Os caiff ei gyflwyno, byddai Fflecsi yn cymryd lle'r gwasanaethau C1, C2, C3 a 761 sy'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn gyda fflyd i dri cherbyd. Mae gwasanaethau'r amserlen bresennol yn gweithredu bob awr ar hyn o bryd, o ddydd Llun i ddydd Sadwr, ond argymhellir y byddai'r gwasanaeth Fflecsi yn gweithredu am oriau estynedig ac ar ddydd Sul, gan gynnig gwasanaeth sy'n cymharu â'r hyn a ddarperir gan Fflecsi yng Nglyn Ebwy. Yr oriau gweithredu arfaethedig yw:

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 05:30 i 22:30

Dydd Sul 09.00 i 16.00





Y DRILL HALL



Cynaliadwyedd ased cymunedol allweddol yng ngwaelod Cas-gwent



Cysylltiadau da ac amlygrwydd y Drill Hall i ymwelwyr a'r gymuned leol, sy'n ffurfio rhan o'r profiad o'r Castell/Amgueddfa a Glan yr Afon

Dibyniaethau

Canlyniad astudiaeth Drosglwyddo Asedau Cymunedol a phenderfyniad rhwng Cyngor Sir Fynwy a Cyngor Tref Cas-gwent

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Tref Cas-gwent

Cyllid

I'w gadarnhau



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL-WEDDOL

- Sicrhau bod y Drill Hall yn parhau fel cyfleuster diwylliannol croesawgar a hygyrch o dan arweiniad y gymuned er budd pobl leol ac ymwelwyr â Chas-gwent.
- Datblygu potensial y Drill Hall fel canolfan ar gyfer addysg gymunedol yng nghelfyddydau, diwylliant a threftadaeth yr ardal.
- Adeiladu capasiti'r Drill Hall i gynnal gweithgareddau cymunedol newydd, er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant yn unol ag angen cymunedol a ganfuwyd.
- Gwireddu cyfloedd mentrau cymunedol a chymdeithasol newydd sy'n helpu cynnal y Drill Hall yn yr hirdymor.

DISGRIFIAD O'R PROS-IECT

Mae'r Drill Hall Cas-gwent yn lleoliad cymunedol a chelfyddydau sydd, ers iddo gael ei lesio gan Gyngor Tref Cas-gwent yn 2008, a'i drosglwyddo i bwyllgor rheoli gwirfoddol, wedi datblygu'n gyflym i ddod i ganolbwynt pwysig ym mywyd artistig a chymunedol Cas-gwent. Gyda'i rhaglen sy'n cynnwys sinema, theatr byw proffesiynol, cyngherddau, perfformiadau dramatig amatur lleol, darlenniadau barddoniaeth gan feirdd sy'n adnabyddus yn genedlaethol, sgysiau am lyfrau gan awduron enwog, ysgolion dydd ar bynciau o ddiddordeb hanesyddol ac amgylcheddol, arddangosfwydd celf a chrefft a chrefftiau, sioeau cynnyrch, dawnsfeydd a chyfarfodydd misol rheolaidd y Chepstow Society a Chepstow U3A.

Cafodd Gareth Kiddie, cyfarwyddwr yr arbenigwyr adfywio cymunedol GKA, ei gomisiynu gan Gyngor Tref Cas-gwent ym mis Awst 2021 i helpu arwain y Cyngo trwy'r broses o sicrhau'r Drill Hall yn

llwyddiannus gan Gyngor Sir Fynwy ar sail Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae wedi cyflawni ymgynghori helaeth gyda rhanddeiliaid lleol a'r gymuned ehangach. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon roedd canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi gyda'r prif bwyntiau cryno canlynol.

Mae'r pethau'r oedd ymatebwyr yn gyffredinol yn eu gwirioneddol hoffi a'u gwerthfawrogi yn cynnwys:

- ei maint, amrywiaeth ac ansawdd yr adloniant a gynigir (yn fwyaf arbennig y dangosiadau o ffilmau a sgysiau awduron)
- y gwelliannau diweddar a wnaed i'r adeilad,
- yr awyrgylch heddychlon a'r teimlad cymunedol, gwirfoddolwyr croesawgar a pharod i helpu,
- prisiau rhesymol am docynnau a pharcio ar y safle.

Roedd y pethau'r oedd yr ymatebwyr yn gyffredinol a allai fod yn feysydd

i'w gwella yn cynnwys: yr addurn mewnol, hyrwyddo digwyddiadau'n well, mwy o weithgareddau i bobl ifanc, y gwresogi a'r awyru, y system sain, y seddau, parcio yn ystod digwyddiadau poblogaidd, a gallai'r fynedfa a'r cyntedd edrych yn fwy croesawgar.

I'r rhai'r ymgynghorwyd â hwy, cyflwynwyd tri maes y dywedwyd y gallai'r Drill Hall eu datblygu ymhellach neu eu datblygu o'r newydd yn y dyfodol. Roedd yr ymateb yn llethol o blaid datblygu'r cynnig o adloniant celfyddydol ymhellach, gyda chefnogaeth dda i'r syniad o gyflwyno mwy o gyfleoedd addysg cymunedol.

Caiff y cam nesaf felly ei gyflwyno fel Gweithdy Dychmygu Cymunedol lle bydd holl gynrychiolwyr rhanddeiliaid y Drill Hall yn cael eu gwahodd. Nid diben y gweithdy yw aildroedio hen dir, ond yn hytrach cynnal digwyddiad cyfranogol sy'n rhoi cyfle gwirioneddol o gyflwyno syniadau da ac adeiladol ar gyfer datblygu'r rhaglen, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweitho'n dda.





CYSYLLTIADAU GARDEN CITY – LLWYBR ARFORDIR CYMRU



Creu coridorau a llwybrau diogel, iach, hygrych ac integredig



Use of green infrastructure (SuDS)



Connecting to 5min neighbourhood

Dibyniaethau

Ystyriaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Cwblhau cynllun preswyl y Brunel Quarter

Cyswllt â Glan yr Afon o dan Bont newydd Gwy

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy

Cyfoeth Naturiol Cymru

Datblygwyr Brunel Quarter

Cyllid

Cyfoeth Naturiol Cymru

Arian Adran 106



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL-WEDDOL

Ailagor cyswllt o Hardwick Avenue trwy'r twnel rheilffordd i'r Brunel Quarter ar hyd Glan yr Afon i waelod Cas-gwent

Ystyried sut mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhoi budd i economi canol y dref o ran llwybr, arwyddion, dehongli.

DISGRIFIAD O'R PROS-IECT

Fel rhan o welliannau Teithio Llesol, y nod yw ailgyfeirio Llwybr Arfordir Cymru trwy'r twnel wedi cael i safle preswyl y Brunel Quarter, gan ddilyn torlannau afon Gwy, o dan Bont newydd Gwy ac ymlaen i'r man cychwyn/gorffen ar Lan yr Afon. Mae cyfleoedd i oleuo neu ddefnyddio gwaith celf yn y twnel fel rhan o well profiad.





ASTUDIAETH DDICHONOLDEB LLEOLIADAU GWAITH AR Y STRYD FAWR



Ailddefnyddio'r stoc adeiladau presennol



Creu lleoedd hyblyg ac iddynt lawer o fanteision



Sicrhau profiad amrywiol a naws cymdogol i ganol y dref

Dibyniaethau

Astudiaeth ddichonoldeb yw'r prosiect hwn felly nid yw ond yn ddibynnol

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy

Cyllid

Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Fynwy



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALLWEDDOL

- Denu gweithgarwch newydd i ganol y dref
- Addasu adeilad neu le a danddefnyddir at ddiben arall
- Rhoi symbyliad i unedau gwag
- Datblygu rhwydwaith cadwyn gyflenwi lleol

DISGRIFIAD O'R PROSIECT

Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb o'r galw a sut i weithredu lleoedd gwaith ar Stryd Fawr Cas-gwent, yn canolbwyntio'n benodol ar drefniant hyblyg neu weithio ar y cyd. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar unrhyw weithgarwch blaenorol neu ar hyn o bryd yn y Sir o safbwynt cyflenwad a galw, gydag ymchwil marchnad i ddeall anghenion o fewn Cas-gwent a'i fewnwlod.

Gan gysylltu â phrosiectau eraill y Stryd Fawr, byddai'r astudiaeth yn asesu'r stoc adeiladau a'r lleoliadau sydd ar gael o gymharu â'r gofynion am leoedd gwaith, a byddai hefyd yn canfod dibenion a gweithgareddau atodol eraill a allai ychwanegu at ei apêl a'i gynaliadwyedd. Byddai hefyd yn datblygu rhwydwaith o gyflenwyr a allai gefnogi lleoliad gwaith, megis ymgynghorwyr cymorth technoleg gwybodaeth, cyfrifwyr, gwerthwyr papur, siopau brechanau, etc. Gan ddibynu ar amser yr astudiaeth ddichonoldeb, gallai ddylanwadu ar weithgarwch grantiau gwella adeiladau.





YSGOL GYNRADD THORNWELL



Egwyddorion strydoedd gwaraidd



Defnyddio seilwaith gwyrdd



Creu lleoedd cymdeithasol



Cysylltu â chymdogaeth 5 munud

Dibyniaethau

Canlyniadau adroddiad dichonoldeb ac arfarniad dewisiadau ar gyfer porthdy'r gofalwr

Proses berchnogaeth o'r ysgol gynradd a thrigolion cyfagos

Sefydliad(au) Arweiniol

Cyngor Sir Fynwy

Ysgol Gynradd Thornwell

Landlordiaid Cymdeithasol

Cyllid

Rhaglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru

Grantiau datblygu cymunedol a chyllid ymddiriedolaethau



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL-WEDDOL

- Addasu hen borthdy'r gofalwr at ddiben arall
- Gwella cysylltiad yr ysgol â Thornwell Road
- Gwelliannau i'r strydlyn a chyflwyno seilwaith gwyrdd
- Cysylltu â'r Rhwydwaith Teithio Llesol

DISGRIFIAD O'R PROS-IECT

Mae'r ysgol gynradd wedi bod yn arloesi wrth dyfu cynnyrch a deall o le daw bwyd gan sefydlu fferm gymunedol fach y mae ei disgyblion a'i hathrawon yn ei chynnal a'i rheoli.

Gallai porthdy gwag y gofalwr ddiwallu angen o fewn y gymuned ac mae'n destun astudiaeth ddichonoldeb. Mae ganddo bresenolded ar y brif ffordd a gallai gynnig canolfan gymunedol weladwy sy'n gweithredu fel pont rhwng trigolion a'r ysgol.

Gellid datblygu estyniad i'r thema bwyd a thyfu gyda'r adeilad yn cynnwys cegin gymunedol, ystafell ddosbarth a hyfforddiant, lle i gadw offer ac angori rhandir cymunedol, gweithgareddau rhannu bwyd, compostio cymunedol a chynnig llwybrau dysgu yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol ee clybiau swper, gwyliau cynhaeaf, clybiau coginio etc.





CYSYLLTIADAU TEITHIO LLESOL BULWARK



- Trawsnewid ffyrdd yn strydoedd (20mya)
- Creu coridorau diogel, iach, hygrych
- Defnyddio seilwaith gwyrdd
- Cysylltu â chymdogaeth 5 munud

Dibyniaethau

Datblygu'r cynllun, arfarniad cost cychwynnol

Sefydliad(au) Arweiniol

Ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru ar gynigion cefnffyrdd
Cyngor Sir Fynwy

Cyllid

Llywodraeth Cymru
Rhaglen teithio llesol Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Fynwy

Arian Adran 106



Amserlen

2022-2025

2025-2030

2030-2037

CYFLEOEDD ALL-WEDDOL

- Gwelliannau i deithio llesol sy'n cefnogi gwell symudedd, ffyrdd iach o fyw a theithiau iach i'r gwaith, i ddysgu, ar gyfer hamdden, siopau a mwy
- Mynd i'r afael â mannau y gwyddom eu bod yn beryglus i gerddwyr a beicwyr megis croesfannau, sicrhau hygrychedd a chyflwyno cyfres ddi-dor o lwybrau
- Mae'r Cysylltiadau Teithio Llesol yn cefnogi'r gymdogaeth 5 munud ac yn cysylltu â'r cylch cerdded mwy o 15 munud

DISGRIFIAD O'R PROS-IECT

Yn 2021, cynhaliodd y Cyngor Sir Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Teithio Llesol a arweiniodd at asesiad blaenoriaethu. O fewn cyd-destun Bulwark, dyma'r gwelliannau a gynigir.

Cornel Bulwark. Cysylltiad pwysig rhwng canol y dref a'r ardal breswyl i'r de. Mae amserau aros annerbyniol ar hyn o bryd i groesi'r A48 ar Hardwick Hill. Byddai croesfan a reolir yn fuddiol, er y gallai fod angen ystyried cysylltu'r amserau â'r goleuadau yn y gwaelod.

Wye Crescent i gyffordd Strongbow Rd/Bulwark Rd. Cyswllt defnyddiol rhwng Bulwark a chanol y dref. Ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gyda goleuadau yn eu lle. Rhywfaint o sbwriel dail a mân fandaliaeth.

Cyswllt C4D â Bulwark. Byddai'n darparu cyswllt rhwng llwybr defnydd ar y cyd a chanol y dref, ac ardal gyflogaeth a phreswyl Bulwark.

Cyswllt Mathern Road â Dyffryn Gwy. Mae'r ffordd yn braf i gerdded ar ei hyd-ddi, ond byddai


cyfleoedd 'enillion hawdd' i wella'r profiad yn cynnwys cyrbiau isel/darpariaeth gyffyrddol yn nes at lwybrau anffurfiol (ee ar groesfan Channel View). Byddai gwelliannau cyflym i feicwyr yn cynnwys arwyddion ychwanegol at y cyswllt.

Ffordd Caerwent at Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair. Mae'r llwybr yn cysylltu trwy Bulwark i'r de. Mae'r llwybr yn uniongyrchol ac yn cysylltu nifer o atyniadau allweddol. Mae pwyntiau croesi yn eu lle i gysylltu atyniadau ar ddwy ochr y ffordd. Dylai gwelliannau mwy hirdymor geisio cyflwyno darpariaeth unswydd ar wahân.

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair at Rockwood Road. Ailgyfeiriwyd y llwybr ers 2017 drwy'r parc a Rockwood Road i osgoi Hardwick Hill, sy'n serth a chul. Byddai'r llwybr yn elwa o gwell cyfleusterau croesi ac arwyddion.




MAP TEITHIO LLESOL



- Allwedd:
Cysylltiadau hirdymor eraill
- Llwybrau Defnydd Isel
- Defnydd Canolig sy'n cyrraedd y safonau
- Defnydd Blaenoriaeth sy'n gofyn am welliannau
- Llwybrau eraill sy'n gofyn am welliannau
- Ysgol Uwchradd
- Ysgol Gynradd
- Cyflogaeth

Prosiectau Eilaidd y Cynllun Creu Lleoedd





SIOPAU CYMDOGAETH BULWARK

Cyfleoedd Allweddol

- Gwella profiad siopwyr
- Ailhawlio lle o fod dan gysgod priffordd
- Rhesymoli lle cynnau gwyrdd a danddefnyddir a sydd dros ben
- Gwella seilwaith gwyrdd
- Gwella amgylchedd cerddwyr


Disgrifiad o'r Prosiect

Mae gan y ganolfan siopa cymdogaeth hon y cyfle i ddod yn graidd bywiog siopa a hamdden sy'n amgylchynu tir cyhoedd gwyrdd a diogel, o ansawdd uchel ac yn braf i gerddwyr.

Mae'r cynigion darluniadol yn dangos sut y gellid ailddylunio'r ardal ar sail egwyddorion lle da. Byddai ailhawlio lle dros ben sy'n cael ei gymryd gan y briffordd ar hyn o bryd yn creu mwy o le i siopau arddangos eu nwyddau, lle i eistedd y tu allan i gaffis ac atebion o ran lleoedd parcio. Gall ymyraethau o'r fath ddechrau bywiogi'r stryd a helpu ei throi'n gyrchfan.

Bydd ymyraethau o'r fath yn creu lle ychwanegol i seilwaith gwyrdd integredig hefyd. Yn ogystal â chreu amgylchedd sy'n fwy deniadol yn weledol, mae gan hyn y potensial hefyd o wella bioamrywiaeth, draenio cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon.

Gallai'r rhes o siopau hefyd gynnwys gwasanaethau cymunedol a llesiant lleol sy'n lle naturiol i bobl gyfarfod, cael cyngor, cymryd rhan mewn gweithgarwch a hefyd gael eu cyfeirio at gyfleusterau lleol eraill





DARPARIAETH CHWARAE / LLEOEDD I NATUR

Cyfleoedd Allweddol

- Ailddarparu lleoedd chwarae o fewn Bulwark a Thornwell sy'n parhau i ddarparu adnoddau i'r gymuned ond hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfalaf naturiol y llecynnau
- Cadw lleoedd chwarae a llecynnau gwyrdd ond gan gyfoethogi eu gwerth bioamrywiaeth

Disgrifiad o'r Prosiect

Uwchraddio'r ddarpariaeth chwarae bresennol sy'n diwallu anghenion y gymuned a ffurfio rhan o'r egwyddorion cymdogaethau 5-munud.

Gallai gweithredu cynlluniau natur cymunedol trwy ddarparu lleoedd chwarae gynnwys:

- Plannu ar gyfer pryfed peillio a mathau eraill o fywyd gwyllt
- Dolydd bychan / gwrychoedd cynhenid
- Plannu coed a llwyni / coed ffrwythau / perllannau – cyfleoedd tyfu bwyd cymunedol

Y safleoedd i gynnwys: Burnt Barn Road, Garvey Close, Valentine Lane, Bishops Close, Strongbow Road a Larkfield Park.

Mae safleoedd ychwanegol i'w harchwilio yn cynnwys: Pembroke Road, Aust Crescent a Piggies Hill. Mae angen i'r prosiect ychwanegu gwerth at y llwybr Perllannau Cymunedol, a ddatblygu gan Transition Chepstow a Chyngor Tref Cas-gwent.



TEITHIO LLESOL A LLECYN NATUR CY- MUNEDOL

Cyfleoedd Allweddol

- Cysylltu ymyl ogledd-orllewinol cymuned Cas-gwent o fewn canol y dref â chyrchfannau eraill trwy'r Danes, Moun-ton Road ac ar Welsh Street.
- Gwneud buddsoddiad ychwanegol yn llecyn agored y Danes trwy fesurau llecynnau lleol ar gyfer natur
- Gwella'r llwybrau bresennol i gyrraedd safonau Teithio Llesol

Disgrifiad o'r Prosiect

Caiff y llwybr llinellol yn y Danes, sy'n cysylltu Kingsmark Lane a'r profi lecyn agored / lle chwarae, ei gynnwys fel un o'r safleoedd yn y prosiect Llecynnau Natur Cymunedol (CNS) eleni ac mae'n cynnig rhai cyfleoedd i'w wella. Nid yw topograffeg y safle ar hyn o bryd yn cynnig cyswllt realistig hygyrch oddi ar y ffordd i ganol y dref a man cychwyn y llwybr oddi ar y ffordd yn Castle Dell i lawr i'r Castell, yr Amgueddfa a Glan yr Afon. Mae angen adolygu hyn ac archwilio'r dewisiadau ar gyfer gwneud gwelliannau.

Mae angen creu'r gyfres gydlynol hon o lwybrau cerddwyr o ymyl ogledd-orllewinol y dref o Bayfield i Barnett's Farm mewn ffordd sy'n sicrhau mynediad yn ôl ac ymlaen i ganol y dref, ac yn ogystal cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus leol sy'n cefnogi teithiau dychwelyd. Byddai ychwanegu mentrau eraill megis y cynllun llogi e-feiciau a gorsafoedd gwefru yn y rhan uchaf hon o'r dref yn helpu cynyddu symudedd pobl ac i gael at wasanaethau a chyfleusterau lleol.





CANOLFAN GYMUNEDOL BULWARK

Cyfleoedd Allweddol

- Gwella asedau cymunedol sy'n bod eisoes i hybu'r galw, eu hamlygrwydd, eu cynaliadwydd yn y dyfodol a chydlyniant cymdeithasol
- Integreiddio asedau fel Canolfan Gymunedol Bulwark ac Ysgol Gynradd Pembroke Road i'r gymuned leol.

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r gymuned leol yn cydnabod gwerth asedau cymunedol ac addysgol megis Canolfan Gymunedol Bulwark ac Ysgol Gynradd Pembroke Road. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Gwell arwyddion a llwybrau hygyrch, yn ôl ac ymlaen i'r Ganolfan Gymunedol a gwell hygyrchedd i'r adeilad a'r maes parcio.
- Gwell darpariaeth chwarae gerllaw'r Ganolfan Gymunedol
- Cefnogi'r Ganolfan Gymunedol o ran y mathau o ddefnydd, gweithgareddau a hyrwyddo trawsgymunedol, a gwaith adnewyddu arfaethedig – gan ei hyrwyddo fel canolbwynt lleol.
- Ar y cyd â'r Ysgol Gynradd, datblygu cynllun gweithgareddau cymunedol y tu allan i'r ysgol sy'n cefnogi ethos ysgol gymunedol.
- Arfarnu sut mae tir yr ysgol yn gweithio gyda'r strydoedd agosaf, ymylon a ffiniau a llwybrau etc, a deall os oes cyfleoedd i greu mwy o hydreiddiad, gan sicrhau diogelwch disgyblion



CYSWLLT UPPER CHURCH STREET / BRIDGE STREET

Cyfleoedd Allweddol

- Symleiddio'r gerbyttfordd
- Lleihau geometreg y gyffordd i gynyddu lle i gerddwyr ac arafu cyflymder cerbydau
- Gwella blaenoriaethau i gerddwyr sy'n defnyddio croesfannau ar gyffyrdd ochr
- Gwella lleoliad yr Elusendai hanesyddol

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r gornel hon yn bwynt allweddol i gerddwyr gyda sawl dewis o gysylltiadau â'r Stryd Fawr, yr eglwys, y castell a glan yr afon. Mae, fodd bynnag, ar hyn o bryd dan gysgod cynllun geometrig y briffordd a blaenoriaeth i gerbydau.

Mae cyfle yma i ailddiffinio'r lle a chreu blaenoriaeth i gerddwyr. Gellir cyflawni hyn yn eithaf syml trwy leihau geometreg cyffordd y briffordd ar y cyd â chyflwyno nodweddion effeithiol i roi blaenoriaeth i gerddwyr, megis croesfannau ffyrdd ymyl a chulhau'r briffordd ar rannau allweddol i gerddwyr.

Gall cyflwyno coed stryd a thirlunio ochr cyrbiau hefyd sefydlu'r pwynt fell le gan helpu hefyd i allwyo'r gerbyttfordd a lleihau cyflymder traffig.





GORSAF FYSIAU THOMAS STREET / MOOR STREET

Cyfleoedd Allweddol

- Creu porth cyrraedd ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus gyda thir newydd o safon i'r cyhoedd a seilwaith gwyrdd integredeig
- Lleihau'r arwynebeddau mawr o bafin 'marw' trwy leihau'r nifer o gilfannau bws
- Bywiogi'r lle trwy gyflwyno defnydd 'gwasanaeth' ee ciosg coffi
- Cyfle i adleoli lle parcio i'r anabl o Moor Street i Thomas Street, gan helpu i leihau tagfeydd ym Moor Street

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle gwych i addasu'r lle a'r tir cyhoeddus hagr presennol yn gyfan gwbl at ddiben arall. Bydd angen cyflawni adolygiad o'r gwasanaethau bws presennol gyda nod o leihau'r nifer o gilfannau sydd ei angen. Byddai hyn yn cysylltu ag argymhellion prosiect y gyfnewidfa bysiau-rheilffordd a'r gweithgareddau'r gwasanaethau bws lleol. Bydd hyn yn rhyddhau tir segur i'w addasu'n dir o ansawdd i'r cyhoedd.

Bydd cyflwyno seilwaith gwyrdd ystyrlon yn helpu i feddalu'r amgylchedd caled presennol a chreu'r cefndir ar gyfer defnydd atodol ee ciosg coffi gyda seddau'n wynebu'r de / lle gorffwys. Bydd y lle ychwanegol a gaiff ei greu yn cynnig y cyfle hefyd i adleoli'r lleoedd parcio i'r anabl o Moor Street. Mae'r rhain yn culhau'r stryd ar hyn o bryd i gerbyttffordd sengl. Er bod hyn yn tawelu'r traffig, mae hefyd yn creu tagfeydd sy'n effeithio ar olwg a theimlad Moor Street.



LLE CHWARAE A GARDD SYNHWYRAIDD

Cyfleoedd Allweddol

- Gwellu'r ddarpariaeth chwarae bresennol
- Cefnogi Grŵp Cymunedol gyda gwelliannau i'r ardd synhwyrdd
- Sicrhau bod yr holl le yn addas ar gyfer llesiant, chwarae, pêl-droed a defnydd hamdden anffurfiol

Disgrifiad o'r Prosiect

Cafodd llecyn agored Hardwick Village ei sefydlu gan 'Gwmni Cenedlaethol Adeiladu Llongau' y Morlys fel rhan o bentref newydd Hardwick Village a adeiladwyd ar gyfer gweithwyr iard longau newydd y Llywodraeth yng Nghas-gwent yn 1917 i ddarparu llongau ar gyfer y rhyfel.

Mae Grŵp Cymunedol Garden City wedi datblygu eu prif gynllun ar gyfer y safle cyfan, gyda chynlluniau ar gyfer llwybr newydd o'i amgylch, offer chwarae newydd i blant iau ac i gymryd lle'r hen offer chwarae. Mae'n gae a gaiff ei ddiogelu gan Feysydd Chwarae Cymru (rhan o'r Gymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae) – felly caiff ei ddiogelu fel llecyn agored am byth i'r cyhoedd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae wedi ei ddynodi fel safle coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf – cafodd y tai eu hadeiladu i gartrefu gweithwyr iard longau'r llynges fel rhan o ymdrechion y Rhyfel Byd Cyntaf.





TIR CYHOEDDUS Y CASTELL / Y GANOL-FAN GROESO / YR AMGUEDDFA

Cyfleoedd Allweddol

- Lleihau cyflymder traffig
- Lledu troedffyrdd
- Creu lleoedd ar gyfer seddau tafarndai
- Symleiddio mynediad i faes parcio'r castell
- Gwella'r cyswllt i gerddwyr rhwng y castell a'r amgueddfa

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r rhan hon o'r dref yn bwynt cyrraedd a phorth allweddol i lawer o'r twristiaid sy'n ymweld â hi. Fodd bynnag, nid yw traffig sy'n symud yn gymharol gyflym, llwybrau cul a thir blinedig yr olwg i'r cyhoedd yn portreadu hyn. Mae cyfle gwirioneddol, fodd bynnag, trwy ymyraeth gymharol syml, i greu teimlad gwirioneddol o gyrraedd yma. Mae cyfle hefyd i integreiddio'r defnydd a wneir o'r tir cyfagos yn llawer gwell fel lle unedig. Trwy wro ychydig ar y stryd yn llorweddol, gellir lledu llwybrau, gan gynnig lle y gallai'r tafarndai cyfagos eu defnyddio ar gyfer seddau allanol. Gellid cyfuno hyn gyda gerddi glaw bach a thirlunio i helpu gyda seilwaith gwyrdd a draeniad.

Ar hyn o bryd, mae'r amgueddfa fel pe bai wedi ei hysgaru o brosiad y castell. Mae cyfle, fel rhan o'r gwelliannau a grybwyllwyd eisoes i dir cyhoeddus y stryd, i ddarparu cyswllt mwy uniongyrchol, sy'n amlwg yn weledol a ffisegol rhwng y ddau, gan integreiddio'r amgueddfa'n well i'r lle.



CYNLLUN RHANNU BEICIAU

Cyfleoedd allweddol

- Gall rhannu beiciau gefnogi amcanion polisi trafndiaeth Llywodraeth Cymru trwy leihau allyriadau carbon, denu beicwyr newydd a gwneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol.
- Gall beiciau trydan helpu gyda thopograffeg herion a gwneud rhannu beiciau yn fwy cynhwysol.
- Byddai cynllun o faint addas ar gyfer Cas-gwent yn cynnwys tua 100 o feiciau trydan a 10 o orsafoedd angori.
- Mae manteision allweddol rhannu beiciau yn cynnwys lleihau allyriadau carbon, gwella ansawdd aer lleol, denu beicwyr newydd a chynyddu'r graddau mae trafndiaeth gyhoeddus ar gael a'i wneud yn fwy deniadol.
- Gellid defnyddio Cas-gwent fel achos prawf i dreialu amrywiaeth o ddewisiadau symudedd ar y cyd i ategu'r rhwydwaith Metro craidd

Disgrifiad o'r Prosiect

Cynllun Angori Rhannu Beiciau yw'r ateb gorau i amcanion astudiaeth WelTAG Cas-gwent. Gall beiciau trydan helpu gyda thopograffeg heriol a gwneud rhannu beiciau yn fwy cynaliadwy. Byddai cynllun o faint addas ar gyfer Cas-gwent yn cynnwys tua 100 o feiciau trydan a 10 o orsafoedd angori. Byddai'r cynllun a ffeirir yn costio tua £500,000 i'w sefydlu ar y cychwyn (prynu beiciau a gosod gorsafoedd) a byddai angen tua £100,000 o gymhorthdal gweithredu bob blwyddyn. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gost y cymhorthdal gweithredu a ddarperir i wasanaethau bysiau lleol C1/C2/C3. Mae ymestyniad daearyddol y cynllun arfaethedig, y nifer o orsafoedd angori a'u dosbarthiadau gofodol wedi cael eu trafod gyda grwpiau rhanddeiliaid lleol a'r farn yw bod 10 o orsafoedd angori a 100 o feiciau trydan yn gynllun o faint addas ar gyfer Cas-gwent.





GWASANAETHAU BWS LLEOL CANOL Y DREF

Cyfleoedd Allweddol


- Darparu gwell hygyrchedd rhwng cyrchfannau lleol i ddefnyddwyr bws presennol a defnyddwyr posibl. Am y teithiau hyn mae'r galw (a'r galw posibl) mwyaf am deithio ar fysiau fel arfer.
- Cysylltu mwy o wasanaethau bws (ac felly cyrchfannau lleol) â gwasanaethau rheilffordd yn y Gyfnewidfa Drafndiaeth arfaethedig yng ngorsaf Reilffordd Cas-gwent er mwyn gwella hygyrchedd rhanbarthol.
- Gweithredu rhwydwaith bws yn y dyfodol gyda lefel debyg o adnoddau gweithredu.

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r rhwydwaith bws arfaethedig yn defnyddio Moor Street (a gorsaf bws bresennol Thomas Street), Hardwick Terrace, Mount Pleasant (A48), Beaufort Square, a'r Stryd Fawr gyda phob taith yn cylchredeg mewn cyfeiriad yn groes i'r cloc trwy ganol y dref. Mae'r cylch yn galluogi pob bws i gysylltu â naill ai gorsaf fysiau Thomas Street, y Gyfnewidfa Drafndiaeth, neu'r ddau.

I gefnogi'r syniad blwch bysiau a'r Gyfnewidfa Drafndiaeth, mae safleoedd newydd wedi cael eu cynnig ar yr A48 a gerllaw yr orsaf fysiau bresennol.

Cynigir safle bws newydd ar Moor Street sy'n galluogi bysiau yn teithio i'r gorllewin, heibio i'r orsaf fysiau, godi a gollwng teithwyr heb yr angen i wneud cylch drwy'r orsaf fysiau sy'n un-ffordd tua'r gogledd. Yn ogystal â seilwaith lle aros i'r safle, argymhellir cynnwys cyfleusteru i gerddwyr yn y gyffordd ag arwyddion.



Allwedd:

- Cylchdaith cerdded y dref
- Cylch bws
- Safleoedd bws presennol
- Safleoedd bws newydd arfaethedig
- Gorsafoedd angori e-feiciau



MYNEDIAD A LLEOLIADAU'R STRYD FAWR A CHYSYLLTIA- DAU AR DRAWS Y DREF

Cyfleoedd Allweddol

- Creu mwy o gysylltiadau clir ac eglur i gerddwyr
- Cysylltu asedau fel parciau, llyfgelloedd, toiledau
- Cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol
- Arwyddol ymylon canol y dref

Disgrifiad o'r Prosiect

Nod y prosiect hwn yw darparu cysylltiadau cryfach ar draws y dref o lecyn gwyrdd y Dell trwy'r fynedfa furiog ar draws maes parcio Welsh Street, gan fynd heibio i Lyfrgell/Canolfan Gymunedol Cas-gwent ac i mewn i ganol y dref.

O ochr dde-ddwyreiniol canol y dref, yn benodol ffordd wasanaethau Upper Nelson Street mae cyfle i ddarparu arwyddion yn ôl ac ymlaen i'r Stryd Fawr. Gallai hyn ategu elfen o barcio "galw heibio" (arhosiad cyfyngedig) o fewn Upper Nelson Street.

Gallai'r mathau o weithiau gwella gynnwys:

- Nodau trywydd a ffurfiau eraill o arwyddion (ailadroddus a chyfeiriadol)
- Newidiadau i'r palmentydd a'r arwyneb i gyfeirio defnyddwyr i ganol y dref
- Gwelliannau newydd i dir y cyhoedd mewn lleoedd a dargedir
- Tirlunio lle bo angen.





CYSYLLTIADAU WELSH STREET

Cyfleoedd Allweddol


- Gwella diogelwch plant wrth fynd i'r ysgol
- Creu pyrth newydd i'r ysgol a'r ganolfan hamdden
- Cyflwyno seilwaith gwyrdd
- Hyrwyddo cerddwyr uwchlaw cerbydau

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae'r prosiect cymharol fach hwn yn cynnig y potensial i ailddychmygu adrannau o Welsh Street, yn bennaf ar y pwyntiau mynediad i'r ysgol a'r ganolfan hamdden yn ogystal ag â'r strydoedd preswyl hynny sy'n dod i lawr o ardal Kingsmark.

Gellid 'cyhoeddi' y pwyntiau mynediad yn y strydlun trwy ddefnyddio:

- Triniaethau arwyneb strydoedd gwaraidd
- Culhau strydoedd lleol trwy ddefnyddio seilwaith gwyrdd
- Adleoli croesfannau i safleoedd diogelach
- Adeiladu nodweddion wrth ddynesu at byrth yr ysgol a'r ganolfan hamdden
- Gwell arwyddion i gerddwyr/beicwyr a rhoi ymwybyddiaeth o le sy'n canolbwyntio ar bobl i ddefnyddwyr ceir



GLAN YR AFON

Cyfleoedd Allweddol

- Creu naws am le sy'n deilwng o Lwybr byd-enwog Arfordir Cymru
- Gwneud y lle yn fwy cydlynol i borth deheuol Llwybr Arfordir Cymru ac ardal amwynderau Glan yr Afon
- Ymgorffori nodweddion sy'n cysylltu'r pyrth gogleddol a deheuol i greu teimlad o gysylltedd ar hyd y llwybr
- Gosod nodweddion artistig y bydd pobl yn eu postio ar gyfryngau cymdeithasol, gan ddarparu marchnata effeithiol i'r llwybr
- Creu gwaddol barhaol i 10fed penblwydd Llwybr Arfordir Cymru

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae angen i ardal glan yr afon gadarnhau ei hun fel cyrchfan o fewn y dref a rhan o lwybr treftadaeth ac asedau naturiol gwaelod Cas-gwent. Mae angen iddo weithio gydag ardal y Castell/Amgueddfa a'r Ganolfan Groeso o ran dynodi llwybrau a dehongli. Wrth gyrraedd mae angen dilyniant clir o symudiad o hen Bont Gwy at lan yr afon ac ardal y llwyfan band, gyda phorth deheuol Llwybr Arfordir Cymru'n cael presenoldeb cryfach gyda strwythurau fertigol i gyhoeddi bod y llwybr yn addas i Instagram. Mae'n cynigian gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys: Gwell arwyddion, Cysylltu geiriau, Dweud y stori a Dehongliad sain. Mae angen arwyddion parhad clir ac ystyried sut y caiff unrhyw lwybr a ail-leolir o Garden City, sy'n cyrraedd yn Brunel Quarter a Glan yr Afon yn cael ei weithredu a'i reoli.





EGLWYS Y SANTES FAIR

Cyfleoedd Allweddol

- Dychwelyd y Priorddy i'w ddiben hynafol fel canolfan lewyrchus bywyd cymunedol i holl drigolion ac ymwelwyr Cas-gwent
- Diogelu'r Priorddy fel adeilad hanesyddol pwysig i'r dref i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau
- Datblygu cyfleusterau'r Priorddy i ddiwallu anghenion yr 21ain ganrif a'r tu hwnt
- Cynnal y Priorddy fel canolfan bywyd teuluol lle gall teuluoedd ddathlu neu nodi digwyddiadau bywyd fel bedyddiadau, priodasau ac angladdau a dathliadau teuluol eraill
- Cynnal y cysylltiad mil o flynyddoedd ag addoli a gweddio Cristnogol i bobl Cas-gwent
- Lle i addoli a gweddio i bobl Cas-gwent

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae Eglwys Priorddy'r Santes Fair wedi cyrraedd croesffordd lle mae angen iddi gynnal ei hun fel lle i addoli o fewn y gymuned, diogelu ei gwerth hanesydd ond hefyd agor ei hun i fwy o weithgareddau a digwyddiadau ehangach o'r gymuned a'r dref. Mae rhywfaint o fuddsoddi'n digwydd o amgylch yr eglwys, ond mae ar yr adeilad ei hun angen atgyweiriadau hanfodol os yw am barhau fel lle i addoli.

Mae'r Eglwys wedi datblygu Gweledigaeth sy'n ymwneud ag edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r gofod mewnol mewn nifer o ffyrdd sy'n parchu'r diben craidd, ond eto'n denu cynulleidfaoedd newydd fel y deuir i'w gweld fell le hygyrch a chynhwysol i bawb. Mae rhai



gweithgareddau sy'n hawdd eu darparu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer grwpiau babanod a phlant bach, gweithgareddau gwyliau ysgol, gweithgareddau chwarae meddal, neu barc chwythu ag aer a grwpiau cymorth i rieni ifanc neu'r rheini sydd ag iselder ôl-enedigol.

I bobl ifanc, gellid darparu rhannau o'r eglwys ar gyfer clybiau ieuenctid wythnosol gan gynnwys tennis bwrdd, pwl, cerddoriaeth megis discos diogel (er enghraifft: <https://www.bluelightsa.org/about>).

I bobl hyn, gweithgareddau fel caffi dementia, canolfan ddydd, cyngherddau, theatre, sinema, defnydd gan gymdeithasau a chlybiau ac arddangosfeydd celf.

Gallai dathlu a hyrwyddo'r Celfyddydau gynnwys Gwyliau – Cerddoriaeth a Chelfyddydau Perfformio, Llenyddiaeth – Bardd/Artist Preswyl, Gofod arddangosfa – Ffotograffiaeth, Paentio, Fideo, Cyfryngau cymysg a cherflunio.

Mae cynigion y gellir eu trialu neu fod yn lled-barhaol yn cynnwys:

- Wal ddringo dros dro
- Parc sglefrio dros dro

Byddai angen i adeiladwaith allanol a mewnol yr adeilad ffurfio rhan o becyn cais am gyllid gyda'r incwm o'r gweithgareddau a restrir uchod i ffurfio rhan o gyfraniad y cyllid cyfatebol.

Byddai angen i'r tu allan o gwmpas yr Eglwys gael ei wella hefyd o ran llwybrau o'i chwmpas, lleoedd parcio, ei neuadd eglwys a'i perthynas â gwaelod Stryd yr Eglwys a Stryd yr Eglwys. Mae ar ei phrif fynedfa angen mwy o amlygrwydd wrth ichi ddynesu o Upper Church Street ar droed, megis trwy driniaeth i'r gerbyttffordd ac arwyddion.



ELFENNAU ERAILL CREU LLEOEDD

Rheoli Lleoedd

I gefnogi'r prosiectau ffisegol, mae angen am reoli'r lle. Mae'r Sefydliad Rheoli Lleoedd yn diffinio'r gweithgarwch fel "dull cydgysylltiedig, seiliedig ar ardal, aml-randdeiliad o wella lleoliadau, gan fanteisio ar sgiliau, profiadau ac adnoddau'r rheini yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol". Mae rheoli lleoedd yn canolbwyntio ar ffyrdd o wella lleoliad neu o gynnal safon gymeradwy o weithredu a gyrhaeddwyd eisoes. Yn achos Cas-gwent, mae sefydliadau lleol yn cyfarwyddo gweithgarwch ac adnoddau i helpu cefnogi canol y dref, ond byddai'r rhain yn cael mwy o effaith pe bai hyn yn fwy integredig. Mae elfennau ar gyfer datblygu rheolaeth o leoedd yn cynnwys:

- Ffordd o weithio sy'n rheoli canol tref. Opsiynau yn cynnwys rheolwr neu grwp gweithredol aml-sector. Byddai hyn yn canolbwyntio ar adnoddau gweithredol ac ar strydoedd ar y cychwyn cyn symud ymlaen i weithgareddau eraill.
- Bywiogi strydoedd. Archwilio ffyrdd syml o fywiogi strydoedd canol y dref, gan adeiladu ar arddangosiadau baneri bach a blodau. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar arwyddion busnes a byrddau A, defnyddio baneri, addasu llecynnau cymdeithasol, ymysg pethau eraill.
- Llwyfan digidol. Gwefan i'r dref gydag ymgyrchoedd atodol ar gyfryngau cymdeithasol sy'n cysylltu hefyd â hunaniaeth ffisegol o fewn y dref ee arwyddion, arwyddion digwyddiadau, etc.
- Digwyddiadau a Gweithgareddau. Wrth ychwanegu at y rhaglen bresennol o ddigwyddiadau tref, mae angen archwilio cynllun cyfamserol neu dros dro a fyddai'n canolbwyntio ar eiddo gwag, treialu syniadau, cynhyrchion, digwyddiadau sy'n gweithredu

fel llwyfannau i ficro-fusnesau a busnesau newydd. Byddai hyn yn gysylltiedig ag adnoddau canol y dref neu gallai fod yn swyddog prosiect tymor penodol. Gallai digwyddiadau a gweithgareddau eraill lenwi bylchau yn y calendr digwyddiadau/gwyliau a allai fod o fewn adeiladau ffisegol neu yn yr awyr agored, ee sinema awyr agored.

Digwyddiadau a Gweithgareddau

Mae'r dref eisoes yn weithgar gyda digwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal ers llawer blwyddyn. O Wyl Gerddoriaeth Roc Castell i'r Wyl Gelfyddydau flynyddol a Gŵyl Gerdded y dref, i enwi ychydig, mae'r rhain i gyd wedi eu creu ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n dod â balchder ac angerdd i'r dref. Mae'r marchnadoedd wythnosol ar ddydd Sul yn y Stryd Fawr wedi dod yn ddyddiadau rheolaidd yn y dyddiadur, gan adeiladu ar ddilyniant a dod yn atyniad i'r dref. Mae cyfle felly i ddod â'r rhain at ei gilydd mewn calendr cydgysylltiedig a hefyd i chwilio am unrhyw dir cyffredin er mwyn cronni adnoddau ymysg grwpiau digwyddiadau a gwyliau. Fel y dangoswyd yn yr adran rheoli lleoedd, byddai'r angen am un wefan unigol i'r dref yn rhoi llwyfan ar gyfer hyrwyddo digwyddiadau a byddai'n cychwyn cyflwyno hunaniaeth a set o negeseuon cyson.

Trefi Smart

Mae Trefi Smart yn cofleidio technolegau newydd i gyflawni buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol megis cynnydd mewn cyfraddau troedio a thwf mewn gwariant, gwell rheolaeth o draffig, arbed ynni, strydoedd glanach a saffach, a'r cyhoedd yn chwarae mwy o ran.

Mae Trefi Smart yn mabwysiadu'r un dechnoleg a data ag mae brandiau cenedlaethol wedi bod yn eu defnyddio ers degawdau i alluogi busnesau bach a chanol trefi i gystadlu. Mae Trefi Smart yn

helpu hefyd i 'godi'r gwastad' fel bod pob busnes a sefydliad o fewn tref yn gallu cael at yr un wybodaeth sydd arnynt ei angen i helpu tyfu eu busnes a chanol y dref.

Cafodd Owen Davies Consulting eu penodi i adolygu pa mor 'smart' yw Cas-gwent fel rhan o asesiad ledled y sir a phroses cynllunio gweithredu. Dyma yw eu canfyddiadau.

Camau y gallai'r dref eu cymryd i fanteisio ymhellach ar ei seilwaith digidol o safbwynt treftadaeth a diwylliant.



Seilwaith a thechnoleg ddigidol yng Nghas-gwent

Mae gan Gas-gwent seilwaith o ansawdd da ar lefel strategol, gan gynnwys gwasanaeth 4G cynhwysfawr ar draws pob rhwydwaith yn ogystal â band eang cyflym iawn. Fodd bynnag, yn debyg i'r rhan fwyaf o drefi yn sir Fynwy, nid oes gan y dref wasanaeth 5G na band eang gwibgyswllt. Mae'r rhain yn feysydd i fuddsoddi ynddynt yn y dyfodol gan fod y cynnydd mewn cysylltedd a gynigir gan 5G a band eang gwibgyswllt yn galluogi'r busnesau sy'n bod eisoes i fanteisio ymhellach ar lwyfannau ac offer ar-lein. Yn ogystal, gall y cysylltedd o ansawdd uchel a ddarperir gan y rhwydweithiau hyn ddenu busnesau annibynnol newydd i sefydlu yn y dref.

Nid oes gan Gas-gwent ar hyn o bryd unrhyw ddyfeisiadau mesur cyfraddau troedio cyhoeddus (un o hanfodion sylfaenol Tref Smart). Byddai'r dyfeisiadau hyn yn rhoi tystiolaeth ynghylch sut mae pobl yn defnyddio canol y dref, gan helpu llunio penderfyniadau ynghylch rhai o brif flaenoriaethau'r dref megis trafndiaeth a pharcio. Mae tystiolaeth o rai mentrau treftadaeth a diwylliant digidol yng nghanol y dref, fel Transition Chepstow yn cyhoeddi eu planhigion trwy godau QR ar eu blychau. Yn ogystal, mae pwyntiau hanes (HistoryPoints) wedi eu lleoli drwy ganol y dref yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas Cas-gwent. Mae HistoryPoints yn fenter ledled Cymru i osod codau QR ar safleoedd hanesyddol sy'n darparu gwybodaeth hanesyddol gryno ar dudalen we, pan gaiff y cod QR ei sganio. Mae potensial i adeiladu ymhellach ar hyn trwy integreiddio'r Castell â'r dreftadaeth sydd i'w gael yn gyffredinol drwy ganol y dref, yn ogystal â chlymu treftadaeth y dref â digwyddiadau newydd a rhai sy'n bod eisoes. Gallai Castell Rhaglan fod yn fodel ar gyfer y nesaf.



Presenoldeb ar-lein

Y presenoldeb ar-lein yw sut mae'r dref yn ymddangos, yn bennaf ar beiriannau chwilio a chyfryngau cymdeithasol. Yn aml, y presenoldeb ar-lein allanol hwn yw'n man cychwyn cyntaf i ymwelwyr sy'n ceisio gwybodaeth leol, digwyddadau ac atyniadau, lletygarwch a chynigion o ran siopau pan maent yn ymweld.

Gall gwefannau, apiau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fod yn lle defnyddiol i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd i ryngweithio â busnesau a chynghorau o fewn y gymuned o'u sianelau eu hunain a rhannu eu profiadau eu hunain ag eraill.

Mae hyn yn cyfoethogi cynnig ar-lein y dref i ymwelwyr posibl eraill ac mae felly'n gweithredu fel marchnata organig a all effeithio'n gadarn ar dwf mewn ffordd ddramatig. Mae llawer o fanteision i ddatblygu brand busnes ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Gall helpu i wella ymwybyddiaeth brand, cyfathrebu â chwsmeriaid ar lefel newydd, adeiladu awdurdod a gyrru traffig i wefannau busnesau.

Er bod 70% o bobl yn y Deyrnas Unedig yn treulio 3 awr y diwrnod ar gyfartaledd ar gyfryngau cymdeithasol, dim ond 28% o fusnesau'r Deyrnas Unedig sy'n gweithredu ar gyfryngau cymdeithasol. Dengys data o Maybe* fod gan tua 287 o fusnesau yng nghanol tref Cas-gwent bresenoldeb ar-lein, yn bennaf ar Facebook, Instagram a Twitter. O'r busnesau hyn, mae tua'u hanner yn hyrwyddo'u busnesau o ddifrif ar-lein. Mae'r gyfradd ymateb (cyfuniad o hoffi, sylwadau a rhannu) i ganol tref Cas-gwent tua 10,000 y diwrnod ond mae wedi cyrraedd uchafbwynt o'r blaen o 30,000 mewn un diwrnod. Mae busnesau fel Wye Valley Meadery, Chateau Bon Bon, La Bonita Boutique a'r salon prydferthwch lleol Albion House yn postio cynnwys yn rheolaidd ac felly'n adeiladu eu cyfrif dilynwyr eu hunain ac yn cyfathrebu'n weithgar â'u sail o gwsmeriaid.

Blaenoriaethau digidol Cas-gwent



Gosod y synwryddion smart arfaethedig a LoRa

Er mwyn galluogi busnesau a rhanddeiliaid canol y dref i gael y gwerth mwyaf o'r systemau, cyn gynted â phosibl.



Cysylltu canol y dref a'r castell

Defnyddio synwryddion i ddeall yn fanwl y berthynas rhwng y Castell a chanol y dref, adnabod meysydd i'w gwella y gellid eu targedu â buddsoddiad yn y dyfodol. Defnyddio data o synwryddion i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad gwahanol rannau o ganol y dref a darparu niferoedd ymwelwyr, yr amser a dreuliant a dadansoddeg arall i fusnesau a rhanddeiliaid.



Hyrwyddo Cas-gwent ar-lein


Adeiladu ar hanes hir twristiaeth canol y dref trwy ddatblygu cynnig ar-lein sy'n dod â'r hyn sydd gan Gas-gwent i'w gynnig at ei gilydd mewn un lle, er mwyn denu mwy o ymwelwyr i ganol y dref.



Rheoli traffig, parcio a chyfyngu i gerddwyr yn unig


Defnyddio synwryddion i adnabod unrhyw ardaloedd lle mae problemau, natur yr anawsterau a pha bryd mae'r anawsterau hyn yn codi. Defnyddio tystiolaeth o'r synwryddion wedyn i helpu llunio penderfyniadau ynghylch sut i reoli parcio a thraffig a chyfyngu lleoedd i gerddwyr yn unig.

PAN GAIFF EI HARGRAFFU, BYDD Y DUDALEN HON YN CAEL
EI GADAEI YN FWRIADOL WAG



Pennod 05
Cynllun
Gweithredu a
Rhaglen

5



CYNLLUN GWEITHREDU A RHAGLEN Y PROSIECTAU Â BLAENORIAETH

Cymdogaeth	Trefn	Cam Gweithredu	RHAGLEN		THEMÂU			
			2022-2025	2025-2030	Symud o Gwmpas	Cymuned a Phobl	Amgylchedd, Llecynnau, Llesiant	Cyrchfan a Mentergarwch
PRIF BROSIECTAU'R CYNLLUN CREU LLEOEDD								
Canol y dref a Glan yr Afon	01	Y Stryd Fawr – Ymgyrch Eiddo Gwag, ar lefel stryd ac adeiladau mwy, defnydd cyfamserol a dros dro etc						
Canol y dref a Glan yr Afon	02	Y Stryd Fawr – Grantiau gwella adeiladau – y Stryd Fawr a Moor Street						
Canol y dref a Glan yr Afon	03	Darpariaeth chwarae a dól blodau gwyllt The Dell						
Canol y dref a Glan yr Afon	04	Cyfnewidfa Bysiau-Rheilffordd – cysylltiadau rhanbarthol-cenedlaethol; safleoedd bysiau yng nghanol y dref						
Cynllun arall Creu Lleoedd	05	Trafnidiaeth seiliedig ar alw (DRT) – Cynllun Fflecsi						
Canol y dref a Glan yr Afon	06	Y Drill Hall						
Garden City	07	Cyswllt Teithio Llesol Garden City a Llwybr Arfordir Cymru						
Canol y dref a Glan yr Afon	08	Astudiaeth ddichonoldeb o leoedd gwaith ar y Stryd Fawr						
Bulwark a Thornwell	09	Ysgol Gynradd Thornwell – prosiect tyfu cymunedol						
Bulwark a Thornwell	10	Cysylltiadau Teithio Llesol Bulwark a Chysylltiadau WCP						

GWNEUD IDDO DDIGWYDD

Ffyrdd o Weithio

Datblygu a Gweithredu Prosiectau Strategol

Mae gweithredu hyn yn ddibynnol ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i mewn i set o gynigion ar y cyd sydd o fudd i'w gilydd, ac yn bwysig, o fudd i ganol y dref. Mae'r cynigion a'r cyfleoedd o fewn y weledigaeth a'r strategaeth hon yn gofyn am wahanol gymysgeddau o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer datblygu a gweithredu.

Mae ffactorau llwyddiant allweddol cyflawni o fewn lleoliad adfywio yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol a sut y gellir dod â'r rhain at ei gilydd.
- Cyfathrebu a chydgyssylltu ar lefel strategol a gweithredol.
- Gweithio i god dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb yn yr amgylchedd adeiledig.
- Cysylltu angen defnyddwyr â'r cyflenwad posibl mewn adeiladau a lle.
- Cyflwyno hunaniaeth unedig i le fel Cas-gwent, gan barchu hunanieithau sefydliadau unigol.

Rheolaeth Weithredol o'r Dref

Mae trefi'n lleoedd cymhleth gyda lluo o randdeiliaid sydd angen eu rheoli'n effeithiol os ydynt am weithredu'n effeithiol.

Mae enghreifftiau o swyddogaethau gweithredol presennol o ddydd i dydd sy'n hanfodol i Gas-gwent yn cynnwys:

- Priffyrdd, parcio, traffig, trafnidiaeth gyhoeddus, wardeiniaid traffig, arolygwyr priffyrdd, goleuadau stryd etc
- Plismona, mynd i'r afael â throseddau ac anhrefn, fandaliaeth, lladrad, teledu cylch cyfyng etc.
- Toiledau cyhoeddus, biniau sbwriel, mynd i'r afael â chŵn yn baeddu, taflu sbwriel, glanhau strydoedd etc.
- Safonau masnach, trwyddedu, caniatâd cynllunio, gorfodi, rheoliadau adeiladu etc.
- Torri gwair, rheoli llecynnau gwyrdd a choed etc.

Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac mae swyddogaethau gweithredol eraill hefyd yn bwysig, gan gynnwys digwyddiadau a chymorth busnes. Yr asiantaethau cyhoeddus allweddol perthnasol yw Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Tref Cas-gwent a Heddlu Gwent.

Diffinio Llwyddiant

Mae'r angen i ddeall beth yw llwyddiant yn bwysig pan fyddwch yn galluogi a gweithredu newid mewn lle fel Cas-gwent.

Mae'n helpu deall y canlyniadau'r ydych yn eu cyrraedd a'r broses sydd angen ichi ei dilyn i'w cyrraedd. Mae diffinio llwyddiant yn dda hefyd o ran symbylu a mynd ati ar y cyd i wireddu nod cyffredin, adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas. Peth arall pwysig mae'n ei wneud yw dangos i'r sefydliadau hynny eich bod yn ariannu prosiectau, eich bod yn cyflawni eich allbynnau a'ch canlyniadau ac yn dangos enillion ar fuddsoddiad. Mae'r diagram yn dangos enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau yn ôl thema.


Cyn y diagram hwn mae tabl o "fetrigau lle" sy'n dangos cyfres o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i fonitro cynnydd, yn ôl cymdogaeth ac yn ôl thema. Law yn llaw â'r allbynnau a'r canlyniadau, byddai'r rhain yn ffurfio rhan o fframwaith gwerthuso y byddai partneriaeth lle yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

Metrigau Lle

Symud o gwmpas	Cymuned a Phobl	Lle, Amgylchedd a Llesiant	Cyrchfan a Phrofiad
- Nifer o symudiadau cerdded/beicio - Nifer o deithwyr (bws) - Cyfrif ansawdd aer - Nifer o symudiadau cerdded/beicio - Dwysedd cerbydau - Nifer o gerddwyr ar Lwybr Arfordir Cymru a llwybrau pellter hir eraill	- Nifer o ddefnyddwyr adeiladau cymunedol - Nifer o grwpiau cymunedol a gefnogwyd - Nifer o grwpiau cymunedol a ffurfiwyd - Nifer o bobl economaidd anweithgar - Nifer o bobl yn ymwneud â gwirfoddoli - Nifer o bobl yn ymwneud â garddio a thyfu cymunedol - Nifer o bobl ar lwybrau rhagnodi cymdeithasol - Nifer o bobl yn ymwneud â chwarae - Nifer o ddefnyddwyr yn ymweld â'r Drill Hall - Nifer o grwpiau cymunedol a gefnogwyd - Nifer o grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd - Nifer o bobl yn ymwneud â chwarae - Nifer o bobl yn ymwneud â gwirfoddoli	- Nifer o bobl yn defnyddio llecynnau agored a seilwaith gwyrdd - Nifer o bobl ar lwybrau rhagnodi cymdeithasol - Nifer o ddefnyddwyr llwybrau - Nifer o fusnesau gwyrdd a grewyd - Nifer o bobl yn defnyddio llecynnau agored a seilwaith gwyrdd - Nifer o bobl ar lwybrau rhagnodi cymdeithasol - Nifer o ddefnyddwyr llwybrau - Nifer o bobl yn defnyddio llecynnau agored a seilwaith gwyrdd - Nifer o ddefnyddwyr llwybrau - Nifer o fusnesau gwyrdd a grewyd	- Dwysedd a nifer cerddwyr - Nifer o adeiladau gwag - Amrywiaeth dibenion - Cyfartaledd hyd arosiadau - Nifer o ymwelwyr - Dilyniant a diddordeb digidol - Cefnogi cadwyni cyflenwi lleol - Nifer o fusnesau newydd yn agor

DIFFINIO LLWYDDIANT

MONITRO A GWERTHUSO





Roberts Limbrick Architects

The Estates Office
25-26 Gold Tops
Casnewydd,
NP20 4PG

03333 405 500

mail@robertslimbrick.com



Chris Jones

15 Nevill Street
Y Fenni,
Sir Fynwy,
NP7 5AA

01873 880 666

chris@chrisjones.studio